Cyngor Sir Powys

# Cynllun Datblygu Lleol Newydd Powys (2022-2037)

## Strategaeth a Ffefrir – Adroddiad Cychwynnol yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig



808795-WSP---10_P05.01
Gorffennaf 2024

Cyhoeddus

Cyngor Sir Powys

# Cynllun Datblygu Lleol Newydd Powys (2022-2037)

## Strategaeth a Ffefrir – Adroddiad Cychwynnol yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig

**Math o ddogfen (fersiwn)** **Cyhoeddus**

**Rhif prosiect 62280832**

**Ein Rhif Cyf. 808795-WSP---10_P05.01**

**Dyddiad: Gorffennaf 2024**


WSP

Kings Orchard
1 Queen Street
Bryste
BS2 0HQ

Ffôn: +44 117 930 6200

WSP.com

# Rheoli ansawdd

| Argraffiad/diwygiad | Argraffiad cyntaf | Diwygiad 1 | Diwygiad 2 | Diwygiad 3 |
|---|---|---|---|---|
| Sylwadau | Drafft Llawn i'w adolygu gan y cleient | Terfynol ar gyfer ymgynghori | | |
| Dyddiad | 03/07/2024 | 22/07/2024 | | |
| Paratowyd gan | Ellie Abbott<br>Robert Deanwood | Ellie Abbott<br>Robert Deanwood | | |
| Gwiriwyd gan | Alastair Peattie | Alastair Peattie | | |
| Awdurdodwyd gan | Robert Deanwood | Robert Deanwood | | |
| Rhif prosiect | UK-62280832 | UK-62280832 | | |
| Rhif adroddiad | 01 | 02 | | |

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| **1** | **Cyflwyniad** | **1** |
| 1.1 | Cefndir | 1 |
| 1.2 | Elfennau'r ACI | 1 |
| 1.3 | Canllawiau Deddfwriaethol | 3 |
| 1.4 | Adroddiad Cychwynnol Hwn yr ACI | 5 |
| **2** | **Y Cynllun Datblygu Lleol Newydd** | **7** |
| 2.1 | Trosolwg o'r CDLIN | 7 |
| 2.2 | Materion Allweddol, Gweledigaeth ac Amcanion y CDLIN | 7 |
| **3** | **Cwmpas a Dull yr ACI** | **17** |
| 3.1 | Cyflwyniad | 17 |
| 3.2 | Materion Allweddol yr ACI | 17 |
| 3.3 | Fframwaith yr ACI | 21 |
| 3.4 | ACI o Weledigaeth ac Amcanion y CDLIN | 29 |
| 3.5 | ACI o'r Strategaeth a Ffefrir ac Opsiynau Amgen Rhesymol | 29 |
| 3.6 | Lliniaru a monitro effeithiau arwyddocaol | 31 |
| 3.7 | Arfarnu Effeithiau Eilaidd, Cronnol a Synergyddol | 31 |
| 3.8 | Anawsterau Technegol | 32 |
| **4** | **ACI o'r Weledigaeth a'r Amcanion** | **34** |
| 4.1 | Cyflwyniad | 34 |
| 4.2 | Canfyddiadau'r asesiad cydweddoldeb | 34 |
| **5** | **ACI o Opsiynau Strategol** | **39** |
| 5.1 | Cyflwyniad | 39 |
| 5.2 | Opsiynau Twf a Gofodol | 39 |

5.3 ACI o’r Opsiynau Twf a Gofodol 43
6 ACI o’r Strategaeth a Ffefrir gan gynnwys Polisïau Strategol 52
6.1 Cyflwyniad 52
6.2 Canfyddiadau cryno’r ACI 52
6.3 Effeithiau rhyng-gynllun cronnol â chynlluniau, rhaglenni a phrosiectau eraill 54
7 Y Camau Nesaf 63
7.1 Trosolwg 63
7.2 Y Camau Nesaf 63

## *Atodiadau (ar gael ar wahân)*

**Atodiad A**

Adroddiad Cwmpasu Terfynol yr ACI

**Atodiad B**

Sylwadau Cwmpasu’r ACI

**Atodiad C**

ACI o’r Opsiynau Twf a Gofodol

**Atodiad D**

ACI o’r Strategaeth a Ffefrir (gan gynnwys Polisïau Strategol)

**Atodiad E**

Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb (EqIA)

# 1

# Cyflwyniad

# 1 Cyflwyniad

## 1.1 Cefndir

1.1.1. Mae Cyngor Sir Powys yn paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd (2022-2037)[1] a fydd yn disodli'r Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig (CDLl) (2011-2026).[2] Bydd y Cynllun Datblygu Lleol Newydd (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel y 'CDLlN') yn nodi faint o ddatblygiad newydd fydd yn cael ei hwyluso yn ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Powys hyd at 2037, gan nodi'n benodol ble fydd y twf hwn yn cael ei leoli. Bydd y CDLlN hefyd yn cyflwyno'r fframwaith polisi ar gyfer rheoli cynigion datblygu.

1.1.2. Yn rhan o baratoi'r cynllun, mae'n ofynnol i'r Cyngor gynnal Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI)[3], i sicrhau bod effeithiau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol tebygol y CDLlN yn cael eu nodi, eu disgrifio a'u harfarnu.

1.1.3. Mae'r ACI yn dod ag Arfarniad Cynaliadwyedd ac Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) ynghyd, yn ogystal ag Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg (AEG), Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (HIA) ac Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EqIA). Mae Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) hefyd yn cael ei gynnal a'i gyflwyno ochr yn ochr â'r ACI. Darperir rhagor o fanylion am broses yr ACI yn **Adran 1.2**.

1.1.4. Paratowyd Adroddiad Cychwynnol yr ACI hwn gan WSP i ategu Dogfen Ymgynghori Strategaeth a Ffefrir y CDLlN.

## 1.2 Elfennau'r ACI

1.2.1. Datblygwyd y dull a fabwysiadwyd ar gyfer yr ACI o'r CDLlN yn unol â chanllawiau'r Llywodraeth ar AAS ac HRA, gan gynnwys Argraffiad 3 y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Mawrth 2020), arferion gorau a chyfraith achosion.

1.2.2. Mae'r gwahanol elfennau asesu (AG, AAS, HRA, EqIA, AEG and HRA) wedi'u hintegreiddio, gan sicrhau bod canfyddiad pob ymarfer yn hysbysu elfennau eraill yr arfarniad ac yn gwella effeithiolrwydd ymgynghori trwy leihau nifer yr adroddiadau sy'n cael eu llunio yn rhan o'r sail dystiolaeth ar gyfer y CDLlN.

### AG ac AAS

1.2.3. Cynhelir Asesiad o Gynaliadwyedd (AG) i fynd i'r afael â gofynion yr AAS a gweithdrefnau a ragnodir gan Reoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004 (y Rheoliadau AAS), a thrwy wneud hynny ehangu cwmpas yr asesiad o faterion

[1] Cynllun Datblygu Lleol Newydd (2022 - 2037) – Cyngor Sir Powys
[2] CDLl Mabwysiedig (2011 - 2026) – Cyngor Sir Powys
[3] Llywodraeth Cymru (2019) Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004

amgylcheddol yn bennaf i ystyried materion cymdeithasol ac economaidd. Mae AG yn ofyniad cyfreithiol ar gyfer Cynlluniau Datblygu Lleol o dan Adran 62 (5) Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004. Cyhoeddir Adroddiad yr AG ar gyfer ymgynghori ochr yn ochr â'r CDLl Drafft gan gyflwyno dadansoddiad o effeithiau sylweddol tebygol a fyddai'n deillio o weithredu'r cynllun, ynghyd ag ystyriaeth o opsiynau amgen rhesymol. Mae Argraffiad 3 y Llawlyfr CDLl (2020) yn bod AG, yn ymgorffori AAS, yn chwarae rhan bwysig i ddangos bod y CDLl yn gadarn drwy sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r gofynion deddfwriaethol ac yn sicrhau datblygu cynaliadwy.

### EqIA

1.2.4. Mae gan Gyngor Sir Powys ddyletswydd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd Gydraddoldeb Sector Cyhoeddus (PSED) gysylltiedig i sicrhau bod yr amcanion a'r opsiynau polisi yn y CDLlN yn osgoi gwahaniaethu anghyfreithlon (uniongyrchol ac anuniongyrchol), ac yn hytrach yn hybu cyfle cyfartal a meithrin perthynas dda rhwng y rhai â nodweddion gwarchodedig a phawb arall. O fis Mawrth 2021, mae'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn ategu'r Ddeddf Cydraddoldeb a PSED trwy gyfrannu ymhellach tuag at nodau llesiant hirdymor Cymru, a "*Cymru fwy cyfartal*" a "*Cymru o gymunedau cydlynus*" yn arbennig.

### HIA

1.2.5. Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 yn cynnwys darpariaeth i'w gwneud yn ofynnol i Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (HIA) gael ei gynnal i asesu effaith debygol y cynlluniau a'r rhaglenni ar iechyd a llesiant meddwl ac anghydraddoldeb. Mae hyn yn cynnwys cynigion a pholisïau sydd wedi'u cynnwys mewn Cynlluniau Datblygu Lleol.

### AEG

1.2.6. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gefnogi'r Gymraeg fel y gall ffynnu a thyfu ledled Cymru. Mae'n rhaid i'r Gymraeg gael ei hystyried o gychwyn y broses y cynllun datblygu. Mae'n ofyniad deddfwriaethol bod yn rhaid i'r ACI gynnwys asesiad o effeithiau tebygol y cynllun ar y defnydd o'r Gymraeg (Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 (Adran 11). Mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC) (2024) yn pennu'r gofynion polisi ar gyfer y Gymraeg. Mae Nodyn Cyngor Technegol 20: Cynllunio a'r Gymraeg yn darparu canllawiau ar ystyried y Gymraeg yn rhan o'r broses cynllun datblygu. Mae'r TAN yn darparu cyngor ar ymgorffori'r Gymraeg mewn cynlluniau datblygu drwy'r ACI a'r dull polisi o ymdrin â hap-ddatblygiad rhagweledig.

### HRA

1.2.7. Cynhelir HRA i roi sylw i'r gweithdrefnau a ragnodir gan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u diwygiwyd). Maent yn gwneud asesiad o effeithiau sylweddol tebygol y Cynllun Datblygu Lleol ar y Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol yn ofynnol, sy'n cynnwys Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA), Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) a safleoedd Ramsar. Mae safleoedd Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol yn elfen o'r

nodweddion niferus a ystyrir o dan bwnc bioamrywiaeth yr ACI, a nodir yn y Rheoliadau AAS

## 1.3 Canllawiau Deddfwriaethol

### Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

1.3.1. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gwneud Cynlluniau Llesiant lleol yn ofyniad statudol. Mae Cynllun Llesiant Powys yn cael ei lunio gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Powys, sy'n cynnwys: Cyngor Sir Powys, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, Gwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru, a Cyfoeth Naturiol Cymru. Dyma amcanion Cynllun Llesiant Powys (2023):

- Mae pobl ym Mhowys yn byw bywydau hapus, iach a diogel;
- Mae Powys yn sir o leoedd a chymunedau cynaliadwy; a
- Gwasanaeth Cyhoeddus cynyddol effeithiol i bobl Powys.

1.3.2. Mae amcanion y Cynllun Llesiant yn llunio gwaith y BGC i gyflawni gweledigaeth y Cynllun Llesiant o Bowys Deg, Gynaliadwy ac Iach. Dyma'r saith nod llesiant a nodwyd gan Ddeddf 2015:

- Cymru lewyrchus;
- Cymru gydnerth;
- Cymru fwy cyfartal;
- Cymru iachach;
- Cymru o gymunedau cydlynus;
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu; a
- Chymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

1.3.3. Mae Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 (Adran 2) yn gorfodi gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'i gofynion ar gyfer datblygu cynaliadwy ymhellach[4]. Cyflwynodd Deddf yr Amgylchedd (Cymru) ddyletswydd bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau estynedig (Dyletswydd Adran 6).

### Cyflawni'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol

1.3.4. Wrth wneud penderfyniadau o natur strategol am sut i arfer eu swyddogaethau, dylai awdurdodau lleol roi sylw dyledus i'r dymuniad i'w harfer mewn ffordd sydd wedi'i chynllunio i leihau'r canlyniadau anghyfartal sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol.

*Pennu amcanion i ganolbwyntio gweithredoedd ar leihau anghydraddoldebau yng Nghymru*

---

[4] Llywodraeth Cymru (2015) 'Deddf Cynllunio (Cymru) 2015'. Ar gael yn: https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/4/section/2/enacted/welsh

1.3.5. Ystyriwch leihau canlyniadau anghyfartal yn gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol wrth wneud penderfyniadau strategol. Mae hyn yn cynnwys amcanion corfforaethol, amcanion cydraddoldeb ac amcanion llesiant. Nid yw'r Ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol pennu amcanion ychwanegol sy'n benodol i'r Ddyletswydd.

*Ystyried cydraddoldeb wrth wneud penderfyniadau*

1.3.6. Wrth wneud penderfyniadau strategol, fel penderfynu ar flaenoriaethau a phennu amcanion, ystyriwch sut y gall penderfyniadau leihau canlyniadau anghyfartal sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol. Anogir cyrff cyhoeddus perthnasol i allu cynnig tystiolaeth o drywydd archwilio eglur ar gyfer pob penderfyniad a wneir o dan y Ddyletswydd.

*Ymgysylltu, cymryd rhan ac ymgynghori*

1.3.7. Anogir cyrff cyhoeddus i ystyried data a thystiolaeth ar ganlyniadau anghyfartal sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol. Bydd ymgysylltu yn uniongyrchol ag unigolion a chymunedau sydd wedi'u heffeithio gan anfantais economaidd-gymdeithasol yn hysbysu hyn.

*Atebolrwydd a Chraffu i wneud Cymru fwy cyfartal a thecach*

1.3.8. Dangoswch ystyriaeth o'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol wrth wneud penderfyniadau strategol. Gellid dangos hyn mewn adroddiadau blynyddol, trwy gyhoeddi asesiadau effaith, a thrwy gyhoeddi papurau bwrdd, er enghraifft.

*Olrhain ac adrodd ar effaith tuag at Gymru fwy cyfartal a thecach*

1.3.9. Nid oes unrhyw ofyniad adrodd pwrpasol i'r Ddyletswydd. Fodd bynnag, anogir cyrff cyhoeddus i fonitro a deall effaith y Ddyletswydd gan ddefnyddio mesurau adrodd presennol.[5]

1.3.10. Gan adlewyrchu'r gofynion uchod, mae'r ACI yn rhoi sylw i'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn y ffyrdd canlynol:

- Yn yr Adroddiad Cwmpasu, trwy gasglu data sylfaenol a manyleb o'r Amcanion sy'n mynd i'r afael â materion economaidd-gymdeithasol, sy'n cynnwys amrywiaeth eang o ddangosyddion sy'n berthnasol i'r Ddyletswydd.
- Dadansoddi effeithiau tebygol cynigion a pholisïau'r CDLIN yn erbyn Amcanion yr ACI.
- Paratoi Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb sy'n dadansoddi effeithiau tebygol y CDLIN ar grwpiau gwarchodedig ym Mhowys.

[5] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-04/cymru-syn-fwy-cyfartal-canllaw-mapio.pdf

- Ymgysylltu/ ymgynghori â'r cyhoedd. Bydd yr ACI ar gael i'w adolygu ac i wneud sylwadau arno ochr yn ochr â'r CDLIN.
- Bydd yr ACI yn cynnig mesurau i fonitro effeithiau sylweddol tebygol y CDLIN, a gallai hyn gynnwys mesurau yn ymwneud â'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol.

## 1.4 Adroddiad Cychwynnol Hwn yr ACI

1.4.1. Mae CDLIN Powys sydd ar fin dod wedi canolbwyntio ar baratoi'r tair elfen ganlynol hyd yma:

- Materion allweddol, gweledigaeth ac amcanion;
- Opsiynau twf tai a chyflogaeth;
- Opsiynau gofodol ar gyfer sicrhau twf

1.4.2. Mae'r ACI yn arfarnu'r allbynnau rhagarweiniol hwn gan ddefnyddio'r Fframwaith a ddatblygwyd yn Adroddiad Cwmpasu'r ACI. Bydd arfarnu pellach yn cael ei wneud wrth i'r cynllun esblygu, yn bennaf o ran polisïau, i ffurfio'r ACI o'r Strategaeth a Ffefrir. Yn hyn o beth, nid yw'r ddogfen hon yn cynnal EqIA, HIA sydd angen manylion cynllun ychwanegol. Cynhelir asesiad cychwynnol o'r effeithiau tebygol ar y Gymraeg trwy Amcan 4 yr ACI (Gwarchod, hyrwyddo a gwella'r iaith Gymraeg a'i diwylliant). Cynhelir HRA rhagarweiniol, gan adlewyrchu opsiynau gofodol a luniwyd yn gyffredinol sydd ar gael y gellir eu cysylltu â Chynefinoedd Ewropeaidd a'u dalgylchoedd (yn achos Afon Gwy ac Afon Hafren, er enghraifft).

1.4.3. Gellir gweld a lawrlwytho dogfennau'r CDLIN a'r sail dystiolaeth ar wefan y Cyngor.

1.4.4. Mae Tabl 1.1 yn crynhoi'r Adroddiadau CDLIN ac ACI allweddol a luniwyd hyd yn hyn.

**Tabl 1.1 – Adroddiadau CDLIN ac ACI allweddol a luniwyd hyd yn hyn**

| Dogfennau ac Ymgynghoriadau'r CDLIN | Dogfennau ac Ymgynghoriadau'r ACI |
|---|---|
| | Gwnaed Adroddiad Cwmpasu'r ACI ar gael ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ac fe'i hanfonwyd at ymgyngoreion statudol rhwng 6 Medi a 10 Hydref 2022. |
| Materion, Amcanion a Gweledigaeth y Cynllun, Deunyddiau Gweithdy ar gyfer ymgynghori rhwng 8 a 28 Ionawr 2024. | |
| Strategaeth a Ffefrir y CDLIN<br>Ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 19 Awst 2024 a 7 Hydref 2024 | Adroddiad Cychwynnol a Chrynodeb Annhechnegol yr ACI<br>Ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 19 Awst 2024 a 7 Hydref 2024 |

# 2

# Y Cynllun Datblygu Lleol Newydd

# 2 Y Cynllun Datblygu Lleol Newydd

## 2.1 Trosolwg o’r CDLIN

2.1.1. Mae Cyngor Sir Powys yn paratoi Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLIN) ar gyfer y cyfnod 2022-2037. Bydd y CDLIN yn cynnwys polisïau a chynigion a fydd yn darparu ar gyfer anghenion a dyheadau datblygu’r Sir, tra’n diogelu a gwella asedau cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol.

2.1.2. Bydd y CDLIN yn cael ei baratoi yn unol â’r canlyniadau allweddol canlynol, yn unol â Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLl) Llywodraeth Cymru (Argraffiad 3, 2020):

- Cefnogi datblygu cynaliadwy a lleoedd o safon yn seiliedig ar Ganlyniadau Cenedlaethol Creu Lleoedd Cynaliadwy, wedi'u halinio â pholisi cenedlaethol a nodir yn Cymru’r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol (2040), Polisi Cynllunio Cymru (PCC) ac wedi'i integreiddio ag Arfarniad o Gynaliadwyedd/AAS/HRA, gan gynnwys y Gymraeg a gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol 2015.
- Adlewyrchu proses o gynnwys cymunedau yn gynnar, yn effeithiol ac yn ystyrlon er mwyn deall ac ystyried amrywiaeth eang o safbwyntiau, gyda'r nod o adeiladu consensws eang ar strategaeth ofodol, polisïau a chynigion y CDLIN.
- Bod yn seiliedig ar ddealltwriaeth gadarn o rôl a swyddogaeth Powys gan gynnwys y cysylltiadau swyddogaethol ag ardaloedd cyfagos.
- Nodi'n glir sut bydd y Sir yn datblygu ac yn newid, gan roi sicrwydd i gymunedau, datblygwyr a busnesau.
- Gallu gwrthsefyll newid yn yr hinsawdd (gan ddefnyddio rhagolygon hinsawdd diweddaraf y DU, data asesiadau risg a pherygl llifogydd) a chefnogi'r broses o newid i gymdeithas carbon isel yn unol â'r targedau a'r cyllidebau lleihau carbon diweddaraf a nodir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) (Rhan 2).
- Dilyn egwyddorion Creu Lleoedd, yr Hierarchaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy a'r Hierarchaeth Ynni fel y'u nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru.
- Sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu rheoli'n gynaliadwy yn unol â Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a deddfwriaeth berthnasol arall.
- Darparu cynllun hyfyw, gan ystyried y gofynion seilwaith angenrheidiol, hyfywedd ariannol a ffactorau eraill y farchnad.

## 2.2 Materion Allweddol, Gweledigaeth ac Amcanion y CDLIN

2.2.1. Roedd paratoad y CDLIN yn cynnwys cyfres o ymarferion ymgysylltu mewnol ac ymgynghoriad cyhoeddus (Ionawr 2024) yn arwain at nodi’r materion allweddol, y weledigaeth a’r amcanion canlynol.

## Materion Allweddol

Rhestrir y Materion Allweddol a nodwyd ar gyfer y CDLl Newydd isod ac ystyrir mai'r rhain yw'r prif faterion defnydd tir a chynllunio gofodol sy'n wynebu ardal y cynllun ar gyfer y cyfnod hyd at 2037.

1. **Ymateb i'r Newid yn yr Hinsawdd** – Lliniaru ac Addasu.
2. **Cefnogi Adferiad Natur** – Diogelu, Cynnal, a Gwella Bioamrywiaeth.
3. **Gofalu am Adnoddau** – Yn yr Amgylchedd Naturiol, Hanesyddol, ac Adeiledig.
4. **Hyrwyddo Trafnidiaeth Gynaliadwy** – Symud o Fewn a Rhwng Lleoedd.
5. **Poblogaeth** – Ymateb i Anghenion a Heriau Demograffig.
6. **Cynllunio ar gyfer Llesiant** – Bywydau Hapus, Iach, a Diogel mewn Cymunedau Cynaliadwy
7. **Iechyd** – Cefnogi Ffyrdd Iach o Fyw a Hyrwyddo Lleoedd Iachach.
8. **Cynllunio'r Datblygiad Iawn yn y Lle Iawn** – Sicrhau Datblygu Cynaliadwy.
9. **Y Gymraeg** – Hybu a Diogelu.
10. **Cynllunio ar gyfer Cartrefi Newydd** – Nifer, Ansawdd, a Fforddiadwyedd.
11. **Cynllunio ar gyfer Economi Fywiog** – Llesiant Economaidd Hirdymor.
12. **Cynllunio ar gyfer Economi Ffermio a Gwledig Gref** – Gan Gynnwys Datblygu Rhwydweithiau Bwyd Lleol.
13. **Cefnogi Bargen Twf Canolbarth Cymru** – Cefnogi'r Economi Ranbarthol.
14. **Cefnogi Twristiaeth Gynaliadwy.**
15. **Creu Lleoedd Lleol** – Dylunio Da yn Creu Lleoedd Gwell. Cynllun Datblygu Lleol Newydd Powys (2022-2037) – Strategaeth a Ffefrir 27
16. **Cynllunio Anghenion Seilwaith a Gwasanaeth** – Gan Gynnwys Gofynion Dyfodol Digidol.
17. **Cefnogi Cyfleusterau Cymunedol ac Asedau Cymunedol.**
18. **Cefnogi Strydoedd Mawr Powys** – Canol y Dref yn y Gyntaf.
19. **Cefnogi Ynni Cynaliadwy** – Harneisio Pŵer Gwyrdd a Hyrwyddo Effeithlonrwydd Ynni.
20. **Rheoli a Lleihau Gwastraff**

## Gweledigaeth

Mewn ymateb i'r Materion Allweddol, diffiniwyd y Weledigaeth ganlynol ar gyfer CDLl Newydd Powys.

"*Erbyn 2037, bydd ardal cynllun Powys:*

*Yn le o gymunedau llewyrchus, bywiog, wedi'u cysylltu'n dda gan gynnwys trefi a phentrefi ffyniannus, sy'n hwyluso twf cartrefi a swyddi newydd, ac yn darparu mynediad da at wasanaethau a chyfleoedd gwaith.*

*Yn rhan o ranbarth mwy cynhyrchiol, mentrus ac unigryw sy'n cefnogi busnesau presennol, economi wedi ehangu, a rhagolygon gwaith gwell yn seiliedig ar arloesedd wedi'i gyfuno â gweithlu crefftus. Bydd sectorau economaidd sylfaenol, gan gynnwys ffermio, twristiaeth, a hamdden, yn parhau eu swyddogaethau allweddol a bydd yr economi wledig yn gydnerth ac yn amrywiol.*

*Yn elwa o ddull strategol o ymdrin â Seilwaith Gwyrdd, gan sicrhau ei fod yn cael ei hyrwyddo a'i amddiffyn ar gyfer manteision lluosog i fywyd gwyllt ac i bobl, ac yn hwyluso rhwydweithiau ecolegol gwell.*

*Erbyn 2037,*

*Bydd cymunedau ar draws ardal y cynllun wedi datblygu mewn ffordd sy'n galluogi ac yn cefnogi:*

- *Cymunedau oedran cytbwys yn byw'n dda mewn lleoedd sy'n diwallu anghenion cymdeithasol, economaidd, y Gymraeg a diwylliannol.*
- *Natur i ffynnu trwy fudd net i fioamrywiaeth ac ecosystemau cydnerth.*
- *Addasiad i'r newid yn yr hinsawdd a'r trawsnewid tuag at sero net.*

*Bydd trigolion yn byw bywydau mwy diogel, iach, a gwyrdd drwy'r ddarpariaeth o ddatblygiadau wedi'u dylunio'n dda mewn amgylchedd ffisegol a diwylliannol rhagorol. Bydd y cyfoeth o adnoddau yn yr amgylcheddau naturiol, adeiledig, a hanesyddol, gan gynnwys tirweddau eiconig, yn cael eu cynnal, eu hamddiffyn, eu gwella a'u gwerthfawrogi, gan lunio etifeddiaeth defnydd tir cynaliadwy ar gyfer y dyfodol.*"

## Amcanion

Mae Tabl 2-1 isod yn cyflwyno amcanion arfaethedig y CDLIN.

**Tabl 2-1 – Amcanion y CDLIN**

| Pwnc | Amcanion |
|---|---|
| **Newid yn yr Hinsawdd**<br>Materion Allweddol:<br>• MA.1 Ymateb i'r Newid yn yr Hinsawdd | **Amcan 1 – Newid yn yr Hinsawdd**<br>i) Sicrhau bod datblygiadau a defnyddiau tir newydd yn wydn yn erbyn effeithiau'r newid yn yr hinsawdd, a mynd i'r afael yn weithredol ag achosion ac effeithiau hinsawdd sy'n newid trwy gadw lefelau mor isel â phosibl, addasu a lliniaru i gefnogi'r uchelgais cenedlaethol i gyrraedd sero net erbyn 2050.<br>ii) Cefnogi gweithredoedd, dulliau, ymyriadau a chynigion datblygu sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau a chynlluniau Corfforaethol a Strategol (e.e. cynlluniau gweithredu graddfa Powys) sy'n mynd i'r afael ag addasu a lliniaru ar gyfer y newid yn yr hinsawdd. |

| Pwnc | Amcanion |
|---|---|
| **Adferiad Natur a Rheoli Adnoddau yn Gynaliadwy**<br>Materion Allweddol:<br>• MA.2 Cefnogi Adferiad Natur<br>• MA.3 Gofalu am Adnoddau | **Amcan 2 – Adferiad Natur**<br>i) Cefnogi adferiad natur a mynd i'r afael â dirywiad bioamrywiaeth trwy ddiogelu, cynnal, adfer, a gwella gwydnwch amgylchedd naturiol Powys gan gynnwys cynefinoedd, bioamrywiaeth a geoamrywiaeth.<br>ii) Sicrhau bod datblygiadau newydd yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at adferiad natur trwy ddarparu budd net i fioamrywiaeth a seilwaith gwyrdd (gan gynnwys seilwaith gwyrdd strategol pan fo'n berthnasol).<br>iii) Sicrhau bod datblygiadau newydd yn hwyluso darpariaeth gwydnwch bioamrywiaeth ac ecosystemau (gan gynnwys gwrthdroi dirywiad) trwy wella rhwydweithiau ecolegol trwy amrywiaeth, rhychwant, cyflwr a chysylltedd.<br>iv) Defnyddio fframwaith seilwaith gwyrdd strategol wrth gynllunio datblygiadau lleol (e.e. mapio, diogelu a nodi cyfleoedd), wedi'i ddylunio ar y cyd â rhanddeiliaid eraill, er mwyn sicrhau gwell integreiddiad, effeithiolrwydd, a chydgysylltiad o ran ymdrechion adfer natur.<br>**Amcan 3 – Amgylcheddau Naturiol, Hanesyddol ac Adeiledig**<br>Rheoli adnoddau naturiol Powys yn gynaliadwy a diogelu, gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol ac adeiledig ac adfer yr amgylchedd naturiol, hanesyddol ac adeiledig gan gynnwys:<br>• Dynodiadau amgylcheddol.<br>• Rhinweddau amgylcheddol fel aer glân, cynefinoedd ac ansawdd dŵr.<br>• Dynodiadau amgylchedd hanesyddol gan gynnwys y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol (HER).<br>• Nodweddion a rhinweddau tirwedd arbennig ardal y Cynllun a rhai ardaloedd cyfagos gan gynnwys Parciau Cenedlaethol a Thirweddau Cenedlaethol.<br>• Asedau hamdden, gan gynnwys llwybrau dynodedig, rhwydweithiau beicio a hawliau tramwy cyhoeddus a mannau agored eraill a werthfawrogir ar gyfer chwaraeon a hamdden (fel sy'n cael eu cynnwys yn nodweddiadol mewn Asesiad Mannau Agored).<br>• Diogelu (yn unol â pholisi cenedlaethol) llwybrau a rhwydweithiau teithio llesol, cyfnewidfeydd trafnidiaeth gyhoeddus presennol, ardaloedd a gynigir ar gyfer cynlluniau trafnidiaeth (seilwaith a llwybrau), ardaloedd mwynau, cynefinoedd arfordirol, a thir comin. |

| Pwnc | Amcanion |
|---|---|
| | • Asedau strategol eraill yn ardal y Cynllun, er enghraifft meysydd hyfforddi'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, Camlas Maldwyn, a'r tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas (graddau 1, 2 a 3a).<br>**Amcan 4 – Adnoddau Mwynol**<br>Diogelu dyddodion mwynau rhag sterileiddiad a darparu'n gadarnhaol ar gyfer gweithio adnoddau mwynol yn gynaliadwy i ddiwallu anghenion cymdeithas nawr ac yn y dyfodol, gan sicrhau bod cyflenwad digonol o fwynau ar gael yn yr hirdymor. |
| **Egwyddorion Cynllunio Allweddol, Creu Lleoedd, Iechyd a Llesiant**<br>Materion Allweddol:<br>• MA.4 Hyrwyddo Trafnidiaeth Gynaliadwy<br>• MA.6 Cynllunio ar gyfer Llesiant<br>• MA.7 Cefnogi Ffyrdd Iach o Fyw<br>• MA.8 Datblygiad Iawn, Lle Iawn<br>• MA.15 Creu Lleoedd Lleol | **Amcan 5 – Teithio Cynaliadwy**<br>Sicrhau bod datblygiadau newydd yn cydymffurfio â'r hierarchaeth trafnidiaeth gynaliadwy sy'n golygu, lle bynnag y bo'n bosibl, eu bod wedi'u lleoli a'u dylunio i leihau'r angen i deithio a galluogi dewis o opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy i bawb. Mae hyn yn cynnwys darparu cyfleoedd teithio llesol fel llwybrau beicio a cherdded i annog ffyrdd iachach o fyw, gwella hawliau tramwy cyhoeddus yn gysylltiedig â datblygiadau, a defnyddio dylunio da i sicrhau bod llwybrau sy'n cysylltu defnyddwyr â gwasanaethau yn hydraidd, yn eglur, yn uniongyrchol, yn gyfleus, yn ddeniadol, ac yn ddiogel. O gofio natur wledig ardal y Cynllun, bydd datblygiad seilwaith gwefru ULEV yn cael ei annog.<br>**Amcan 6 – Creu Lleoedd**<br>Hyrwyddo "datblygiad iawn, lle iawn" trwy strategaeth sy'n canolbwyntio ar greu lleoedd sy'n llunio twf cynaliadwy mewn lleoedd gwydn ar draws ardal y Cynllun. Bydd angen i ddatblygiadau newydd fodloni egwyddorion cynllunio allweddol, mynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur, bodloni'r canlyniadau creu lleoedd cynaliadwy cenedlaethol ac ymateb yn gadarnhaol i amcanion dylunio da sydd wedi'u diffinio mewn polisi cenedlaethol (arfarnu cyd-destun, mynediad, symudiad, cymeriad, diogelwch cymunedol a chynaliadwyedd amgylcheddol).<br>**Amcan 7 – Twf Cynaliadwy**<br>Darparu fframwaith ar gyfer twf cynaliadwy ledled Powys sy'n diogelu adnoddau ac yn galluogi cymunedau i ffynnu. Bydd arwyddocâd yn cael ei neilltuo i Ardaloedd Twf Rhanbarthol o fewn hierarchaeth aneddiadau cynaliadwy sy'n cydbwyso'r ddarpariaeth o gartrefi, swyddi, gwasanaethau, a chyfleusterau ac yn hybu patrymau teithio cynaliadwy. |

| Pwnc | Amcanion |
|---|---|
| | **Amcan 8 – Iechyd a Llesiant**<br><br>Cefnogi iechyd a llesiant trigolion Powys trwy sicrhau bod lleoedd yn newid ac yn datblygu i gefnogi iechyd a llesiant corfforol a meddyliol.<br><br>Mae hyn yn golygu:<br><br>• Chwilio am gyfleoedd sy'n cyfrannu at ffyrdd mwy corfforol ac egnïol o fyw gan gynnwys: darparu cyfleusterau teithio llesol, chwaraeon, chwarae, hamdden, ac amwynder; datblygu rhwydwaith o seilwaith gwyrdd er budd pobl a bywyd gwyllt; sicrhau bod hawliau tramwy cyhoeddus wedi'u cynnal a'u cadw'n dda i ddefnyddwyr eu mwynhau; a hyrwyddo mynediad rhwydd i bawb mewn datblygiadau newydd.<br>• Bydd y Cynllun yn defnyddio egwyddorion creu lleoedd i ddarparu tir y cyhoedd gwell, sydd wedi'i ddylunio'n dda ac yn hybu'r posibilrwydd o ryngweithio cymdeithasol ochr yn ochr â mannau i orffwys, ymlacio, a myfyrio'n dawel. Bydd mannau gwyrdd a glas yn cael eu gwarchod, eu hadfer a'u gwella ar gyfer eu buddion amlswyddogaeth, gan gynnwys y gwerth y maent yn ei ychwanegu at lesiant corfforol a meddyliol.<br>• Gwneud cysylltiadau rhwng cynllunio datblygiadau a nodau Cynllun Llesiant Powys er mwyn ategu ei nodau ar gyfer gwella llesiant cenedlaethau'r dyfodol.<br>• Cefnogaeth i fentrau sy'n cysylltu prynwyr yn fwy uniongyrchol â chynnyrch lleol, gan wella mynediad at fwyd a diod ffres, amrywiol ac iach. |
| **Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cynaliadwy**<br><br>Materion Allweddol:<br><br>• MA.5 Ymateb i Heriau Demograffig<br>• MA.9 Hybu a Diogelu'r Gymraeg<br>• MA.10 Cynllunio ar gyfer Cartrefi Newydd<br>• MA.17 Cefnogi Cyfleusterau Cymunedol ac Asedau Cymunedol | **Amcan 9 – Aneddiadau a Chymunedau Cynaliadwy**<br><br>Cefnogi cymunedau cryfach, mwy diogel, iachach, a mwy cysylltiedig a bywiog trwy ystyried anghenion holl elfennau cymdeithas, gan gynnwys pob grŵp oed a goblygiadau poblogaeth sy'n heneiddio. Bydd datblygiadau newydd yn defnyddio egwyddorion creu lleoedd i ysgogi canlyniadau economaidd, cymdeithasol, diwylliannol, ac amgylcheddol buddiol gan greu mannau lleol cytbwys o ran oedran, cynaliadwy a llewyrchus sy'n optimeiddio iechyd a llesiant y gymuned ac yn mynd i'r afael â materion o amddifadedd ac allgau cymdeithasol yn ogystal ag ymateb yn briodol i'r argyfyngau hinsawdd a natur. Bydd datblygiadau newydd yn gynaliadwy o ran dyluniad ac adeiladu, gan greu eiddo sy'n effeithlon o ran ynni sy'n sicrhau bod costau rhedeg mor isel â phosibl ac yn darparu ar gyfer hyblygrwydd a diogelu at y dyfodol. |

| Pwnc | Amcanion |
|---|---|
| | **Amcan 10 – Diwallu Anghenion y Dyfodol**<br>Adeiladu cymunedau cryfach, tecach a gwyrddach ar draws trefi, pentrefi ac ardaloedd gwledig Powys drwy fodloni'r anghenion a nodwyd ar gyfer cartrefi a swyddi gan sicrhau seilwaith ategol. Cynllunio twf newydd yn unol â hierarchaeth aneddiadau cynaliadwy, gan ddarparu cyfleoedd newydd a gwell i bobl ddod i fyw a gweithio ym Mhowys.<br>**Amcan 11 – Y Gymraeg**<br>Meithrin y Gymraeg trwy ddiogelu cadarnleoedd y Gymraeg a chefnogi mentrau diwylliannol, addysgol ac iaith Cymru.<br>**Amcan 12 – Anghenion Tai**<br>Diwallu anghenion tai ardal y Cynllun trwy sicrhau bod y nifer, yr amrywiaeth a'r gymysgedd iawn o gartrefi newydd o ansawdd uchel yn cael eu darparu yn ystod cyfnod y Cynllun yn unol â'r hierarchaeth aneddiadau cynaliadwy.<br>Mae hyn yn cynnwys darparu:<br>• Cartrefi digonol i ddiwallu anghenion tai'r farchnad a fforddiadwy.<br>• Cartrefi sy'n diwallu anghenion tai arbenigol sy'n deillio o'r boblogaeth gan gynnwys cartrefi ar gyfer pobl hŷn, tai hygyrch ac wedi'u haddasu, tai â gofal a chymorth.<br>• Cartrefi sy'n fforddiadwy ac yn hygyrch i bobl leol yn eu cymunedau eu hunain gan gynnwys hwyluso cynlluniau tai dan arweiniad y gymuned, cydweithredol, wedi'u teilwra a hunan-adeiladu.<br>• Amrywiaeth addas o gartrefi yn ôl lleoliad, math a dyluniad, i fod yn ddeniadol i wahanol sectorau o'r boblogaeth gan gynnwys prynwyr tro cyntaf, cartrefi ar gyfer aelwydydd llai a chartrefi ar gyfer gweithwyr allweddol a gweithwyr sy'n dod i'r ardal.<br>• Safle(oedd) a lleiniau ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr i ddiwallu angen a nodwyd<br>**Amcan 13 – Cyfleusterau ac Asedau Cymunedol**<br>Cefnogi lleoedd cydnerth a chadarn a llesiant cymunedau trwy ddiogelu mannau agored cyhoeddus a chyfleusterau chwaraeon (e.e. meysydd chwarae, tir amwynder, rhandiroedd), cyfleusterau cymunedol pwysig (e.e. siopau, tafarndai, neuaddau pentref, canolfannau ieuenctid, a lleoliadau celfyddydau, addysg a diwylliannol) ac asedau lleol eraill (e.e. rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus, tir comin a llwybrau |

| Pwnc | Amcanion |
|---|---|
| | teithio llesol), tra'n sicrhau darpariaeth well neu welliant yn rhan o ddatblygiad newydd. |
| **Economi Gynaliadwy a Bywiog**<br>Materion Allweddol:<br>• MA.11 Cynllunio ar gyfer Economi Fywiog<br>• MA.12 Cynllunio ar gyfer Economi Ffermio a Gwledig Gref<br>• MA.13 Cefnogi Bargen Twf Canolbarth Cymru<br>• MA.14 Cefnogi Twristiaeth<br>• MA.18 Cefnogi Strydoedd Mawr Powys | **Amcan 14 – Economi Fywiog**<br>Cefnogi ffyniant economaidd a diwallu anghenion cyflogaeth, gan gynnwys diogelu'r amrywiaeth a'r cyflenwad o safleoedd cyflogaeth, trwy annog arloesedd ac uwchsgilio'r gweithlu, gan helpu Powys i ddarparu cymunedau lleol cryf a chadw a denu gweithlu sy'n fwy cytbwys o ran oedran ac yn gystadleuol.<br>**Amcan 15 – Datblygu Economaidd**<br>Cefnogi datblygu economaidd newydd sy'n cyd-fynd â hierarchaeth aneddiadau cynaliadwy sy'n diwallu anghenion busnesau lleol gan gynnwys cynigion sy'n cryfhau'r economi sylfaenol, fel amaethyddiaeth, gweithgynhyrchu, twristiaeth, ac adeiladu, a chynigion datblygu sy'n cefnogi arallgyfeirio gwledig cynaliadwy ac yn ychwanegu gwerth at gynnyrch lleol.<br>**Amcan 16 – Bargen Twf Canolbarth Cymru**<br>Cefnogi twf economaidd trwy gyfrannu at nodau Tyfu Canolbarth Cymru a hwyluso cynigion sy'n deillio o Fargen Twf Canolbarth Cymru.<br>**Amcan 17 - Twristiaeth**<br>Cefnogi twristiaeth gynaliadwy, gan gynnwys twristiaeth gweithgareddau, gwyrdd, a diwylliannol, tra'n diogelu (gan gynnwys gwella, adfer a gofalu am) adnoddau ac asedau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth, fel yr amgylchedd naturiol, adeiledig a hanesyddol, llwybrau cenedlaethol, hawliau tramwy cyhoeddus, y rhwydwaith beicio cenedlaethol, awyr dywyll, tirweddau unigryw a mannau agored.<br>**Amcan 18 – Canol Trefi**<br>Hybu strydoedd mawr bywiog, deniadol a hyfyw a chanol trefi sy'n ffynnu trwy sicrhau bod datblygiadau manwerthu a masnachol newydd yn cael eu cyfeirio at ganol trefi yn y lle cyntaf, gan ddiogelu ffryntiadau presennol ac annog cymysgedd o ddefnyddiau ategol. Bydd cynigion a amlinellir mewn Cynlluniau Buddsoddi mewn Canol Trefi, Cynlluniau Lle a Chreu Lleoedd neu fentrau lleol eraill yn cael eu cefnogi mewn egwyddor. |
| **Seilwaith, Ynni a Gwastraff**<br>Materion Allweddol: | **Amcan 19 – Darparu Seilwaith a Datblygiad Newydd**<br>Sicrhau bod seilwaith ffisegol a digidol priodol, gan gynnwys cyfleustodau a gwasanaethau fel iechyd ac addysg ar waith neu y gallant gael eu darparu gan gyfraniadau datblygu priodol i |

| Pwnc | Amcanion |
|---|---|
| • MA.16 Cynllunio Anghenion Seilwaith a Gwasanaeth<br>• MA.19 Cefnogi Ynni Cynaliadwy: Harneisio Pŵer Gwyrdd a Hybu Effeithlonrwydd Ynni<br>• MA.20 Rheoli a Lleihau Gwastraff | hwyluso anghenion sy'n deillio o ddatblygiadau newydd. Cefnogi darpariaeth effeithlon y rhain trwy leoli'r rhan fwyaf o dwf mewn lleoedd sy'n cael eu gwasanaethu orau gan seilwaith a gwasanaethau presennol neu arfaethedig, gan gynnwys lleoedd a nodwyd mewn Ardaloedd Twf Rhanbarthol.<br>**Amcan 20 – Prosiectau Seilwaith a Chysylltedd Digidol**<br>Cefnogi'r ddarpariaeth o seilwaith a gwasanaethau newydd neu wedi'u huwchraddio i ddiwallu anghenion newidiol cymdeithas a chymunedau ym Mhowys. Mae hyn yn cynnwys darparu ac uwchraddio cysylltiadau ar gyfer gweithrediadau digidol a ffonau symudol gan alluogi cwmpas seilwaith digidol gwell ar draws ardal y Cynllun.<br>**Amcan 21 – Ynni a Datgarboneiddio**<br>Lleihau galw datblygiadau newydd am ynni, hybu effeithlonrwydd ynni a chefnogi cynhyrchiad ynni adnewyddadwy, tra'n sicrhau bod cyn lleied o ddefnydd â phosibl o adnoddau nad ydynt yn adnewyddadwy, annog datgarboneiddio, ac atal cynhyrchiad gwastraff a llygredd. I helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, bydd y CDLl Newydd yn cyfrannu'n rhagweithiol at fodloni targedau cenedlaethol ar gyfer ynni adnewyddadwy a charbon isel. Gan ddefnyddio'r fframwaith polisi a bennwyd gan Cymru'r Dyfodol, bydd datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel a seilwaith cysylltiedig yn cael eu hwyluso mewn lleoliadau priodol lle maent yn cyd-fynd ag Amcanion eraill gan gynnwys diogelu adnoddau a chefnogi adferiad natur. Bydd angen hwyluso newidiadau seilwaith carbon isel eraill, fel y newid i gerbydau preifat ULEV, ym mhob datblygiad.<br>**Amcan 22 – Gwastraff**<br>Darparu amrywiaeth o safleoedd sy'n addas ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff gan gynnwys y rhai sy'n cynyddu cyfraddau ailddefnyddio ac ailgylchu gwastraff fel opsiwn yn hytrach na safleoedd tirlenwi, ynghyd â lleihau faint o wastraff a gynhyrchir o ddatblygiadau wrth eu hadeiladu a'u defnyddio. |

# 3

# Cwmpas a Dull yr ACI

# 3 Cwmpas a Dull yr ACI

## 3.1 Cyflwyniad

3.1.1. Paratoi Adroddiad Cwmpasu'r ACI yw'r cam cyntaf yn yr ACI, gan nodi materion, amcanion a fframwaith ar gyfer asesu effeithiau tebygol polisïau a chynigion y CDLIN. Roedd yr Adroddiad Cwmpasu ar gael i'w adolygu ac ar gyfer sylwadau gan y cyhoedd ac ymgyngoreion statudol (Cyfoeth Naturiol Cymru a CADW) rhwng 6 Medi a 10 Hydref 2022. Cymerwyd yr ymatebion a dderbyniwyd i ystyriaeth a gwnaed diwygiadau i'r wybodaeth sylfaenol ac Amcanion yr ACI drafft yn ôl yr angen.

3.1.2. Cyflwynir y sylwadau a dderbyniwyd a sut y'u cymerwyd i ystyriaeth yn Atodiad B. Lluniwyd Adroddiad Cwmpasu terfynol yr ACI i adlewyrchu'r sylwadau a dderbyniwyd a chyflwynir hwn yn Atodiad A.

## 3.2 Materion Allweddol yr ACI

3.2.1. Hysbysodd yr wybodaeth sylfaenol a'r adolygiad o gynlluniau a rhaglenni a gyflwynwyd yn Adroddiad Cwmpasu Terfynol yr ACI (gweler Atodiad A) y broses o nodi nifer o faterion allweddol o dan bob un o bynciau'r ACI, a chyflwynir y rhain isod.

**Pwnc yr ACI: Poblogaeth a Chymunedau**

- Ar y cyfan, yr angen i greu lleoedd cynaliadwy lle mae pobl eisiau byw a gweithio.
- Yr angen i alluogi twf tai a nodi isafswm y cartrefi i gynllunio ar eu cyfer a chynllunio ar gyfer cymysgedd o lety i gyd-fynd â phob math o aelwyd.
- Yr angen i wneud y defnydd gorau o'r stoc dai bresennol a gwella ei hansawdd.
- Yr angen i gefnogi darpariaeth mathau arbenigol o dai ar gyfer pobl hŷn a phobl ag anableddau.
- Yr angen i ddarparu tai fforddiadwy i gyfrannu at fynd i'r afael ag anghenion a phwysau tai lleol.
- Yr angen i hyrwyddo amrywiaeth o swyddogaethau sy'n cyfrannu at fywiogrwydd canolfannau gwasanaeth lleol.
- Yr angen i ddiogelu cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol presennol a sicrhau'r ddarpariaeth brydlon o gyfleusterau newydd i ddiwallu anghenion sy'n deillio o ddatblygiadau newydd a fydd yn cyfrannu at gymunedau cynaliadwy.

**Pwnc yr ACI: Economi a Chyflogaeth**

- Yr angen i ddarparu amrywiaeth o safleoedd cyflogaeth i gefnogi twf economaidd.
- Yr angen i sicrhau cyflenwad hyblyg o dir ar gyfer datblygiadau cyflogaeth.
- Yr angen i gefnogi datblygu economaidd ledled Powys.
- Yr angen i gynnal a gwella bywiogrwydd hierarchaeth aneddiadau Powys.
- Yr angen i ddarparu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant cynaliadwy o ansawdd da.
- Yr angen i gynnal a chynyddu cyrhaeddiad addysgol a sgiliau yn y llafurlu lleol.
- Yr angen i leihau cymudo allan trwy annog busnesau i fuddsoddi a sefydlu ym Mhowys.

**Pwnc yr ACI: Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant**

- Yr angen i godi incymau ac yn enwedig i'r rhai y mae eu hincwm yn y chwartel isaf.
- Yr angen i ddarparu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant cynaliadwy o ansawdd da.
- Yr angen i fynd i'r afael â phocedi o amddifadedd sy'n bodoli yn yr ardal.
- Yr angen i ddiogelu a chynnal mynediad at gyfleusterau diwylliannol a chymunedol sydd o fudd i gymunedau cynaliadwy ac yn eu cefnogi.
- Yr angen i wella ymwybyddiaeth pobl o wasanaethau a sut i gael gafael arnynt.
- Yr angen i gynnal a chynyddu cyrhaeddiad addysgol a sgiliau yn y llafurlu lleol.

**Pwnc yr ACI: Y Gymraeg**

- Yr angen i barhau i feithrin diddordeb yn y Gymraeg a dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg (yn enwedig pobl y tu allan i oed ysgol).
- Yr angen i gynyddu nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg.
- Yr angen i gynyddu nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg yn feunyddiol ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg.
- Yr angen i gynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.
- Yr angen i drin y Gymraeg yn ddim llai ffafriol na'r Saesneg.
- Yr angen i ddiogelu hunaniaeth cymunedau presennol.
- Yr angen i ddiogelu a chynnal mynediad at gyfleusterau diwylliannol a chymunedol sydd o fudd i gymunedau cynaliadwy ac yn eu cefnogi.
- Yr angen i wella ymwybyddiaeth pobl o wasanaethau a sut i gael gafael arnynt.

**Pwnc yr ACI: Iechyd a Llesiant**

- Yr angen i ddiogelu iechyd a llesiant poblogaeth Powys.
- Yr angen i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw a rhoi sylw penodol i ordewdra a lefelau o weithgarwch corfforol.
- Yr angen i gynllunio ar gyfer poblogaeth sy'n heneiddio.
- Yr angen i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd.
- Yr angen i ddiogelu a gwella darpariaeth mannau agored hygyrch.
- Yr angen i gefnogi dyluniad o ansawdd uchel sy'n creu cymunedau diogel.
- Yr angen i ddiogelu cyfleusterau a gwasanaethau gofal iechyd presennol a sicrhau'r ddarpariaeth brydlon o gyfleusterau a gwasanaethau newydd i ddiwallu anghenion sy'n deillio o ddatblygiadau newydd.
- Yr angen i wella ymwybyddiaeth pobl o wasanaethau a sut i gael gafael arnynt.
- Yr angen i sicrhau bod datblygiadau newydd yn cael eu dylunio a'u hadeiladu i leihau trosedd a'r ofn o drosedd.

**Pwnc yr ACI: Defnydd Tir, Priddoedd a Daeareg**

- Yr angen i wneud defnydd effeithlon ac effeithiol o dir.
- Yr angen i ddiogelu tir amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas.

- Yr angen i ddiogelu ac adfer adnoddau pridd a mawn fel dalfeydd carbon pwysig a'u swyddogaeth o ran cynyddu gwydnwch yr amgylchedd naturiol yn erbyn effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.
- Gan adlewyrchu amcanion Datganiad Ardal Canolbarth Cymru, yr angen i:
  - Gefnogi busnesau fferm trwy ffyrdd o weithio sy'n sicrhau bod effeithiau ar yr amgylchedd cyn lleied â phosibl.
  - Cymryd mesurau i leihau digwyddiadau llygredd trwy reoli ffynonellau posibl o lygredd yn well (fel storfeydd slyri a thail).
  - Gweithio gyda busnesau, cymunedau a llunwyr polisi i adolygu polisïau a chynlluniau amaethyddol presennol ac archwilio opsiynau newydd ar gyfer Talu am Wasanaethau Ecosystemau.

**Pwnc yr ACI: Dŵr**

- Yr angen i ddiogelu a gwella ansawdd ffynonellau dŵr ledled Powys i sicrhau cyflenwad dŵr cyhoeddus gwydn a gwella ansawdd yr amgylchedd naturiol
- Yr angen i hyrwyddo'r defnydd effeithlon o adnoddau dŵr.
- Yr angen i sicrhau'r ddarpariaeth brydlon o seilwaith gwasanaethau dŵr newydd i fodloni galw sy'n deillio o ddatblygiadau newydd.
- Gan adlewyrchu amcanion Datganiad Ardal Canolbarth Cymru, yr angen i:
  - Gefnogi busnesau fferm trwy ffyrdd o weithio sy'n sicrhau bod effeithiau ar yr amgylchedd cyn lleied â phosibl.
  - Cymryd mesurau i leihau digwyddiadau llygredd trwy reoli ffynonellau posibl o lygredd yn well (fel storfeydd slyri a thail).
  - Gweithio gyda busnesau, cymunedau a llunwyr polisi i adolygu polisïau a chynlluniau amaethyddol presennol ac archwilio opsiynau newydd ar gyfer Talu am Wasanaethau Ecosystemau.
  - Rheoli ein hadnoddau dŵr i wella ansawdd a chyfaint y dŵr sydd ar gael, heb achosi niwed i'r amgylchedd naturiol.
  - Helpu i greu cymunedau hyblyg a gwydn mewn ymateb i ddigwyddiadau tywydd garw a'r newid yn yr hinsawdd.
  - Cefnogi syniadau newydd ynghylch datblygu Atebion ar Sail Natur – er enghraifft, defnyddio Rheoli Perygl Llifogydd Naturiol.

**Pwnc yr ACI: Aer**

- Yr angen i sicrhau cyn lleied â phosibl o allyriadau llygryddion i'r aer.
- Yr angen i wella ansawdd aer, yn enwedig mewn ardaloedd sy'n agored i lygredd.
- Gan adlewyrchu amcanion Datganiad Ardal Canolbarth Cymru, yr angen i:
  - Gefnogi busnesau fferm trwy ffyrdd o weithio sy'n sicrhau bod effeithiau ar yr amgylchedd cyn lleied â phosibl.
  - Cymryd mesurau i leihau digwyddiadau llygredd trwy reoli ffynonellau posibl o lygredd yn well (fel storfeydd slyri a thail).

- Gweithio gyda busnesau, cymunedau a llunwyr polisi i adolygu polisïau a chynlluniau amaethyddol presennol ac archwilio opsiynau newydd ar gyfer Talu am Wasanaethau Ecosystemau.

**Pwnc yr ACI: Gwastraff a Defnydd o Adnoddau**

- Yr angen i sicrhau cyn lleied o wastraff â phosibl ac annog ailddefnyddio ac ailgylchu.
- Yr angen i fynd i'r afael â bylchau capasiti ar gyfer rheoli gwastraff sy'n bodoli ar hyn o bryd ac y rhagwelir y byddant yn bodoli.
- Yr angen i hyrwyddo'r defnydd effeithlon o adnoddau mwynol.
- Yr angen i sicrhau bod adnoddau mwynol Powys yn cael eu hamddiffyn rhag datblygiadau amhriodol.

**Pwnc yr ACI: Newid yn yr Hinsawdd (addasu)**

- Yr angen i ymateb i'r argyfwng hinsawdd a ddatganwyd.
- Yr angen i sicrhau bod datblygiadau newydd yn hyblyg i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.
- Yr angen i gynyddu coetir a gorchudd coed a mesurau eraill i helpu i liniaru ac addasu i'r newid yn yr hinsawdd.
- Yr angen i leoli datblygiadau newydd oddi wrth ardaloedd o berygl llifogydd, gan gymryd effeithiau'r newid yn yr hinsawdd i ystyriaeth.
- Yr angen i sicrhau'r ddarpariaeth brydlon o seilwaith amddiffyn rhag llifogydd/rheoli llifogydd.
- Yr angen i ddiogelu ac adfer adnoddau pridd a mawn fel dalfeydd carbon pwysig a'u swyddogaeth o ran cynyddu gwydnwch yr amgylchedd naturiol yn erbyn effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.

**Pwnc yr ACI: Newid yn yr Hinsawdd (lliniaru)**

- Yr angen i ymateb i'r argyfwng hinsawdd a ddatganwyd.
- Yr angen i liniaru'r newid yn yr hinsawdd gan gynnwys trwy sicrhau cymaint o ddarpariaeth ynni adnewyddadwy â phosibl ar raddfeydd safle a Phowys gyfan.

**Pwnc yr ACI: Trafnidiaeth a Symudiad**

- Yr angen i wella cysylltedd aneddiadau mwy anghysbell.
- Yr angen i annog dulliau teithio amgen yn hytrach na'r car preifat.
- Yr angen i sicrhau bod datblygiadau newydd yn hygyrch i gyfleusterau a gwasanaethau cymunedol a swyddi er mwyn lleihau'r angen i deithio.

**Pwnc yr ACI: Amgylchedd Hanesyddol**

- Yr angen i ddiogelu a gwella amgylchedd hanesyddol Powys gan gynnwys ei amrywiaeth, ac unigrywedd lleol.
- Yr angen i osgoi niwed i asedau treftadaeth dynodedig a'u lleoliadau, a rhoi sylw i dreftadaeth sydd mewn perygl.

- Yr angen i gydnabod gwerth asedau treftadaeth annynodedig a diogelu a phan fo’n briodol gwella’r rhain lle bynnag y bo’n bosibl.
- Yr angen i gydnabod y cyfraniad a wneir gan yr amgylchedd hanesyddol at gymeriad tirweddau a threfluniau, gan gynnwys y Gymraeg a’i diwylliant ac iechyd a llesiant.

**Pwnc yr ACI: Bioamrywiaeth, Seilwaith Gwyrdd a Geoamrywiaeth**

- Yr angen i’r argyfwng bioamrywiaeth a ddatganwyd.
- Yr angen i ddiogelu, gwella ac adfer bioamrywiaeth Powys trwy ddarparu buddion net i fioamrywiaeth pan fo’n bosibl.
- Yr angen i gynnal, adfer ac ehangu cynefinoedd Cynllun Gweithredu Adfer Natur Powys.
- Yr angen i ddiogelu a gwella’r rhwydwaith seilwaith gwyrdd amlswyddogaeth, gan fynd i’r afael â diffygion a bylchau, gwella hygyrchedd ac annog defnyddiau lluosog pan fo’n briodol.
- Yr angen i ddiogelu a gwella safleoedd a ddynodwyd ar sail eu diddordeb ecolegol a daearegol.
- Gan adlewyrchu amcanion Datganiad Ardal Canolbarth Cymru, yr angen i:
  - Nodi prif achosion yr argyfwng natur gan gynnwys yr hyn y mae angen ei wneud, gan bwy a ble.
  - Gwella Statws Cadwraethol Ffafriol safleoedd dynodedig.
  - Nodi cyfleoedd ar gyfer cysylltedd rhwng y safleoedd hynny ac ardaloedd eraill.
  - Gwneud natur yn flaenoriaeth trwy gynllunio, polisi, a mesurau ymarferol.

**Pwnc yr ACI: Tirwedd a Threflun**

- Yr angen i warchod a phan fo’n briodol gwella cymeriad tirwedd a threflun Powys.
- Yr angen i hyrwyddo dylunio o ansawdd uchel sy’n parchu cymeriad lleol.
- Yr angen i sicrhau cynifer o gyfleoedd â phosibl yn gysylltiedig â datblygiadau newydd i wella cymeriad trefluniau ac ansawdd amgylcheddau adeiledig, a’r defnydd o enwau lleoedd hanesyddol, gan gynnwys enwau Cymraeg.
- Yr angen i ddiogelu tirweddau rhag datblygiadau anghydnaws.

## 3.3 Fframwaith yr ACI

3.3.1. Datblygwyd amcanion a chwestiynau llywio’r ACI wedyn i fynd i’r afael â’r materion allweddol a nodwyd a chyflwynwyd y rhain yn Nhabl 3-1 – Fframwaith yr ACI isod. Er gwybodaeth, mae’r nodau llesiant a gyflwynir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 yn cyd-fynd ag amcanion yr ACI.

**Tabl 3-1 – Fframwaith yr ACI**

| Pwnc yr ACI | Amcan yr ACI | Cwestiynau llywio (*A fydd y polisi neu gynnig yn…)* | Cefnogi Nodau Llesiant Cenedlaethol |
|---|---|---|---|
| **Poblogaeth a Chymunedau** | Amcan 1 yr ACI: Darparu cartrefi o ansawdd da a seilwaith cymunedol i ddiwallu anghenion a nodwyd | ▪ Diwallu'r anghenion tai a nodwyd, gan gynnwys gofynion fforddiadwy ac arbenigol?<br>▪ Sicrhau cymysgedd priodol o feintiau o anheddau, a mathau a deiliadaethau i ddiwallu anghenion pob sector o'r gymuned?<br>▪ Darparu tai mewn lleoliadau cynaliadwy sy'n caniatáu mynediad hawdd i ystod o wasanaethau a chyfleusterau lleol?<br>▪ Hyrwyddo datblygiad ystod o gyfleusterau cymunedol hygyrch o ansawdd uchel, gan gynnwys gwasanaethau arbenigol? | ▪ Cymru o gymunedau cydlynus<br>▪ Cymru iachach<br>▪ Cymru fwy cyfartal |
| **Economi a Chyflogaeth** | Amcan 2 yr ACI: Creu a chefnogi economi a gweithlu cryf, amrywiol a gwydn | ▪ Darparu digon o dir i fusnesau dyfu?<br>▪ Cefnogi creu swyddi a chyfleoedd hyfforddi newydd hygyrch?<br>▪ Sicrhau bod cynhwysedd cyfleusterau addysgol yn cyd-fynd â thwf y boblogaeth?<br>▪ Gwella bywiogrwydd a gwytnwch cymunedau?<br>▪ Diogelu ardaloedd cyflogaeth presennol?<br>▪ Creu cyfleoedd ar gyfer twristiaeth gynaliadwy a'i hyrwyddo, gan fanteisio'n sensitif ar asedau amgylcheddol, diwylliannol, treftadaeth a hamdden?<br>▪ Creu cyfleoedd ar gyfer gwelliannau i'r economi wledig ac arallgyfeirio gwledig (gan gynnwys amaethyddiaeth, | ▪ Cymru lewyrchus<br>▪ Cymru gydnerth<br>▪ Cymru fwy cyfartal<br>▪ Cymru o gymunedau cydlynus |

| Pwnc yr ACI | Amcan yr ACI | Cwestiynau llywio (*A fydd y polisi neu gynnig yn…)* | Cefnogi Nodau Llesiant Cenedlaethol |
|---|---|---|---|
| | | coedwigaeth, cyflogwyr bach a chanolig (BBaCh), microfusnesau a datblygu cysylltedd digidol)? | |
| **Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant** | Amcan 3 yr ACI: Lleihau tlodi ac anghydraddoldeb; mynd i'r afael ag allgau cymdeithasol a hybu cydlyniant cymunedol | ▪ Cynorthwyo i ddarparu cyfleoedd cyflogaeth i'r rhai mwyaf anghenus?<br>▪ Helpu i fynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb i gefnogi llesiant?<br>▪ Ymdrin yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol ag ardaloedd sy'n dioddef amddifadedd a/neu ddirywiad?<br>▪ Helpu i ddarparu gwell cyfleoedd addysg a chyrhaeddiad? | ▪ Cymru iachach<br>▪ Cymru fwy cyfartal<br>▪ Cymru o gymunedau cydlynus |
| **Y Gymraeg** | Amcan 4 yr ACI: Gwarchod, hyrwyddo a gwella'r iaith Gymraeg a'i diwylliant | ▪ Effeithio ar y nifer sy'n gallu siarad Cymraeg a/neu gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg bob dydd (effeithiau cadarnhaol a/neu niweidiol)?<br>▪ Effeithio ar gynaliadwyedd cymunedau Cymraeg eu hiaith (effeithiau cadarnhaol a/neu niweidiol)?<br>▪ Effeithio ar addysg cyfrwng Cymraeg a dysgwyr Cymraeg o bob oed, gan gynnwys oedolion (effeithiau cadarnhaol a/neu niweidiol)?<br>▪ Effeithio ar wasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg (effeithiau cadarnhaol a/neu niweidiol)? (e.e. iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, trafnidiaeth, tai, digidol, ieuenctid, seilwaith, yr amgylchedd, llywodraeth leol ac ati) | ▪ Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu<br>▪ Cymru o gymunedau cydlynus |

| Pwnc yr ACI | Amcan yr ACI | Cwestiynau llywio (*A fydd y polisi neu gynnig yn…)* | Cefnogi Nodau Llesiant Cenedlaethol |
|---|---|---|---|
| **Iechyd a Llesiant** | Amcan 5 yr ACI: Gwella iechyd a lles pob rhan o gymdeithas | ▪ Cyfrannu at wella mynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn enwedig mewn ardaloedd anghysbell/gwledig?<br>▪ Cyfrannu at ostyngiad mewn anghydraddoldebau iechyd ymhlith gwahanol grwpiau yn y gymuned gan gynnwys plant a phobl hŷn yn benodol?<br>▪ Cyfrannu at ffyrdd iach o fyw a hybu lles gan gynnwys cerdded a beicio?<br>▪ Cyfrannu at wella mynediad i fannau gwyrdd naturiol, bywyd gwyllt, mannau agored gan gynnwys cyfleoedd ar gyfer chwarae, hamdden ac adloniant?<br>▪ Cyfrannu at gynnydd mewn seilwaith gwyrdd?<br>▪ Sicrhau bod datblygiad newydd yn cael ei ddylunio i leihau troseddu a'r ofn o droseddu? | ▪ Cymru lewyrchus<br>▪ Cymru gydnerth<br>▪ Cymru iachach<br>▪ Cymru fwy cyfartal<br>▪ Cymru o gymunedau cydlynus |
| **Defnydd Tir, Priddoedd a Daeareg** | Amcan 6 yr ACI: Gwneud y defnydd gorau o dir a ddatblygwyd o'r blaen ac adeiladau presennol a diogelu tir amaethyddol gradd uwch | ▪ Creu cyfleoedd i ddatblygu tir a ddatblygwyd yn flaenorol lle na fydd hyn yn cael unrhyw effaith niweidiol ar Gynefinoedd Clytwaith Agored?<br>▪ Gwarchod y tir gorau a mwyaf amlbwrpas rhag datblygiad? | ▪ Cymru gydnerth<br>▪ Cymru iachach |
| **Dŵr** | Amcan 7 yr ACI: Cadw, gwarchod a gwella | ▪ Lleihau'r defnydd o ddŵr? | ▪ Cymru gydnerth<br>▪ Cymru iachach |

| Pwnc yr ACI | Amcan yr ACI | Cwestiynau llywio (*A fydd y polisi neu gynnig yn…)* | Cefnogi Nodau Llesiant Cenedlaethol |
|---|---|---|---|
| | ansawdd dŵr ac adnoddau dŵr | ▪ Sicrhau y gellir darparu cyflenwad digonol o ddŵr gan ystyried rhagamcanion presennol ac yn y dyfodol o ran argaeledd dŵr a defnydd dŵr?<br>▪ Cael ei ddarparu heb achosi gwaethygiad i ansawdd dŵr mewn afonydd a nentydd?<br>▪ Arwain at welliant i ansawdd dŵr yn nalgylchoedd afonydd ACAau?<br>▪ Lleihau'r potensial i arferion amaethyddol gyfrannu at lygredd sy'n seiliedig ar nitradau mewn cyrff a chyrsiau dŵr? | |
| **Aer** | Amcan 8 yr ACI: Cadw i isafswm neu leihau ffynonellau ac effeithiau llygredd aer | ▪ Lleihau'r angen i deithio?<br>▪ Annog teithiau cynaliadwy (teithio llesol neu drafnidiaeth gyhoeddus)?<br>▪ Osgoi unrhyw effeithiau andwyol ar ansawdd aer ac i bobl sy'n cael eu hamlygu i ansawdd aer gwael?<br>▪ Gwella ansawdd aer mewn meysydd a nodwyd fel rhai sy'n peri pryder?<br>▪ Hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o gerbydau trydan?<br>▪ Hyrwyddo a hwyluso gwelliannau i rwydweithiau seilwaith gwyrdd i hwyluso'r gwaith o amsugno a gwasgaru NOx a llygryddion eraill? | ▪ Cymru gydnerth<br>▪ Cymru iachach<br>▪ Cymru fwy cyfartal<br>▪ Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
| **Gwastraff a Defnydd o Adnoddau** | Amcan 9 yr ACI: Lleihau'r gwastraff a gynhyrchir, annog ailddefnyddio ac | ▪ Hyrwyddo adfer tir halogedig ac atal halogiad pellach?<br>▪ Creu cyfleoedd i gynyddu cyfran y gwastraff sy'n cael ei ailgylchu a'i ailddefnyddio? | ▪ Cymru gydnerth<br>▪ Cymru iachach<br>▪ Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |

| Pwnc yr ACI | Amcan yr ACI | Cwestiynau llywio (*A fydd y polisi neu gynnig yn…)* | Cefnogi Nodau Llesiant Cenedlaethol |
|---|---|---|---|
| | ailgylchu a hyrwyddo defnydd effeithlon o adnoddau mwynol | ▪ Hyrwyddo cyfleoedd i ddefnyddio deunyddiau wedi'u hailgylchu a deunyddiau eilaidd mewn adeiladu?<br>▪ Hyrwyddo'r defnydd o ddeunyddiau cynaliadwy o ffynonellau lleol?<br>▪ Diogelu adnoddau mwynol? | |
| **Newid yn yr Hinsawdd (addasu)** | Amcan 10 yr ACI: Cefnogi gwytnwch Powys i effeithiau posibl newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys llifogydd a digwyddiadau eithafol eraill | ▪ Osgoi datblygiad mewn ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd, gan ystyried effeithiau tebygol newid hinsawdd yn y dyfodol?<br>▪ Cynyddu gwytnwch yr amgylchedd adeiledig a naturiol i effeithiau newid hinsawdd?<br>▪ Sicrhau bod y risgiau posibl sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd yn cael eu hystyried mewn datblygiadau newydd?<br>▪ Gwella ac ymestyn rhwydweithiau seilwaith gwyrdd i gefnogi ymaddasu i newid yn yr hinsawdd?<br>▪ Rheoli dŵr ffo yn gynaliadwy, gan leihau dŵr ffo wyneb? | ▪ Cymru gydnerth<br>▪ Cymru fwy cyfartal<br>▪ Cymru o gymunedau cydlynus<br>▪ Cymru sy’n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
| **Newid yn yr Hinsawdd (lliniaru)** | Amcan 11 yr ACI: Lleihau cyfraniad allyriadau nwyon tŷ gwydr at newid hinsawdd | ▪ Cynyddu nifer y datblygiadau newydd sy'n bodloni neu'n rhagori ar feini prawf dylunio cynaliadwy?<br>▪ Lleihau'r defnydd o ynni o ffynonellau anadnewyddadwy?<br>▪ Cynhyrchu ynni o ffynonellau carbon isel neu ddi-garbon?<br>▪ Lleihau'r angen i deithio neu nifer y teithiau a wneir? | ▪ Cymru gydnerth<br>▪ Cymru fwy cyfartal<br>▪ Cymru o gymunedau cydlynus<br>▪ Cymru sy’n gyfrifol ar lefel fyd-eang |

| Pwnc yr ACI | Amcan yr ACI | Cwestiynau llywio (*A fydd y polisi neu gynnig yn…)* | Cefnogi Nodau Llesiant Cenedlaethol |
|---|---|---|---|
| | | ▪ Hyrwyddo'r defnydd o ddulliau trafnidiaeth cynaliadwy, gan gynnwys cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus?<br>▪ Sicrhau nad yw datblygiad yn cyfrannu at gynnydd pellach mewn defnydd uchel o ynni a theithio anghynaliadwy?<br>▪ Gwella'r gwaith o ddarparu atebion seiliedig ar natur i addasu i newid yn yr hinsawdd a'i liniaru? | |
| **Trafnidiaeth a Symudiad** | Amcan 12 yr ACI: Hyrwyddo defnydd cynaliadwy o drafnidiaeth a lleihau'r angen i deithio | ▪ Lleihau'r angen i deithio trwy batrymau cynaliadwy o ddefnydd a datblygiad tir?<br>▪ Annog newid moddol i ddulliau teithio mwy cynaliadwy?<br>▪ Galluogi gwelliannau i'r seilwaith trafnidiaeth?<br>▪ Cefnogi'r defnydd o gludiant carbon isel?<br>▪ Cyfrannu at y rhwydwaith gwefru cerbydau trydan (EV)?<br>▪ Hwyluso gweithio o gartref a gweithio o bell?<br>▪ Darparu gwelliannau i a/neu leihau tagfeydd ar y rhwydwaith priffyrdd presennol? | ▪ Cymru gydnerth<br>▪ Cymru fwy cyfartal<br>▪ Cymru o gymunedau cydlynus<br>▪ Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu<br>▪ Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
| **Amgylchedd Hanesyddol** | Amcan 13 yr ACI: Cadw a gwella adnodd treftadaeth Powys, gan gynnwys asedau adeiledig ac archeolegol | ▪ Cadw ac ychwanegu at arwyddocâd adeiladau a strwythurau o ddiddordeb pensaernïol, hanesyddol a diwylliannol, yn ddynodedig a heb eu dynodi, a'u lleoliad?<br>▪ Gwarchod a gwella diddordeb arbennig, cymeriad ac ymddangosiad Ardaloedd Cadwraeth a'u lleoliadau? | ▪ Cymru gydnerth<br>▪ Cymru fwy cyfartal<br>▪ Cymru o gymunedau cydlynus<br>▪ Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu |

| Pwnc yr ACI | Amcan yr ACI | Cwestiynau llywio (*A fydd y polisi neu gynnig yn…)* | Cefnogi Nodau Llesiant Cenedlaethol |
|---|---|---|---|
| | | ▪ Sicrhau bod enwau lleoedd Cymraeg yn cael eu cydnabod fel nodweddion annatod o dirwedd ddiwylliannol a hanesyddol Cymru?<br>▪ Cadw a gwella olion archeolegol, ac ardaloedd archeolegol sensitif? | |
| **Bioamrywiaeth, Seilwaith Gwyrdd a Geoamrywiaeth** | Amcan 14 yr ACI: Gwarchod a gwella bioamrywiaeth a geoamrywiaeth a hyrwyddo gwelliannau i'r rhwydwaith seilwaith gwyrdd amlswyddogaethol | ▪ Lleihau effeithiau ar fioamrywiaeth a darparu enillion net lle bo modd?<br>▪ Diogelu a gwella rhwydweithiau ecolegol, gan gynnwys y rhai sy'n croesi ffiniau gweinyddol?<br>▪ Gwarchod safleoedd sy'n werthfawr yn ddaearegol, gan gynnwys eu lleoliad? | ▪ Cymru gydnerth<br>▪ Cymru iachach<br>▪ Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
| **Tirwedd a Threflun** | Amcan 15 yr ACI: Gwarchod ansawdd ac amrywiaeth tirweddau a threfluniau lleol dynodedig | ▪ Sicrhau bod tirweddau a threfluniau gwerthfawr Powys yn cael eu cadw a'u gwella?<br>▪ Sicrhau bod enwau lleoedd Cymraeg yn cael eu cydnabod fel nodweddion annatod o dirwedd ddiwylliannol a hanesyddol Cymru?<br>▪ Sicrhau bod ansawdd y dyluniad yn cael ei ystyried fel rhan o bob gweithgaredd datblygu? | ▪ Cymru lewyrchus<br>▪ Cymru gydnerth<br>▪ Cymru iachach; Cymru fwy cyfartal<br>▪ Cymru o gymunedau cydlynus<br>▪ Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu<br>▪ Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |

## 3.4 ACI o Weledigaeth ac Amcanion y CDLIN

3.4.1. Mae'n bwysig bod gweledigaeth ac amcanion y CDLIN yn cyd-fynd ag amcanion yr ACI. Arfarnwyd gweledigaeth ac amcanion y CDLIN felly ar gyfer eu cydweddoldeb â'r amcanion sy'n cyfansoddi Fframwaith yr ACI i helpu i ddarganfod a yw'r dull cyffredinol o ymdrin â'r Cynllun yn cyd-fynd ag egwyddorion cynaliadwyedd. Defnyddir matrics cydweddoldeb i gofnodi'r arfarniad yn seiliedig ar y cynllun a gyflwynir yn Nhabl 3-2.

**Tabl 3-2 – Matrics cydweddoldeb enghreifftiol**

| Amcan yr ACI | Gweledigaeth | Amcan 1 | Amcan 2 | Amcan 3…ac ati |
|---|---|---|---|---|
| 1. Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth | + | 0 | + | ? |
| 2. Tai | + | - | + | + |
| 3. Ac ati… | + | 0 | + | ? |

3.4.2. Cyflwynir yr allwedd ar gyfer yr asesiad cydweddoldeb yn Nhabl 3-3 isod.

**Tabl 3-3 – Allwedd i'r matrics cydweddoldeb**

| Symbol | Canlyniad Cydweddoldeb | Symbol | Canlyniad Cydweddoldeb |
|---|---|---|---|
| + | Cydweddu | 0 | Niwtral |
| ? | Ansicr | - | Anghydweddu |

## 3.5 ACI o'r Strategaeth a Ffefrir ac Opsiynau Amgen Rhesymol

3.5.1. Yn unol â gofynion, mae proses yr ACI wedi ceisio nodi, disgrifio a gwerthuso effeithiau arwyddocaol Strategaeth a Ffefrir ac opsiynau amgen rhesymol. Gwnaed hyn trwy nodi'r newidiadau tebygol i'r amodau sylfaenol o ganlyniad i weithredu'r Strategaeth a Ffefrir a'r opsiwn amgen rhesymol yn hytrach na hi. Disgrifir y newidiadau hyn (pan fo'n bosibl) o ran maint, y cyfnod o amser y gallent ddigwydd yn ei ystod, pa un a fyddai'r effeithiau dros dro neu'n barhaol, yn gadarnhaol neu'n negyddol, yn debygol neu'n annhebygol, yn aml neu'n brin. Pan nad oedd gwybodaeth rifol ar gael, seiliwyd yr arfarniad ar ddyfarniad proffesiynol a chan gyfeirio at ddeddfwriaeth, rheoliadau a pholisi perthnasol. Yn fwy penodol, wrth gyflawni'r arfarniad, rhoddwyd ystyriaeth i:

- wybodaeth sylfaenol gan gynnwys unrhyw faterion allweddol;

- effeithiau tebygol a ffynonellau posibl effeithiau sy'n gysylltiedig ag adeiladu a gweithredu cartrefi newydd, cyflogaeth a seilwaith cysylltiedig;
- y fframwaith rheoleiddio;
- amcanion a chwestiynau llywio'r ACI, gweler Tabl 3-1); a
- diffiniadau o arwyddocâd (gweler Tabl 3-4 ac Atodiad A).

3.5.2. Aseswyd y Strategaeth a Ffefrir, yn ogystal â'i hopsiynau amgen rhesymol, yn erbyn amcanion yr ACI fesul pwnc i nodi effeithiau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd arwyddocaol tebygol gan ddefnyddio matrics arfarnu.

3.5.3. Yn unol â'r Rheoliadau AAS, mae'n rhaid i'r ACI nodi pa rai o'r effeithiau a nodwyd sy'n debygol o fod yn arwyddocaol (pa un a yw hyn yn gadarnhaol arwyddocaol neu'n negyddol arwyddocaol). I sicrhau bod yr effeithiau arwyddocaol yn cael eu cyflwyno'n eglur ac yn gyson, diffiniwyd cyfres o feini prawf arwyddocâd ar gyfer yr asesiad. Caiff y system sgorio a ddefnyddiwyd yn yr arfarniad a'r canllaw ar benderfynu ar effeithiau arwyddocaol yn Nhabl 3-4 isod. Datblygwyd diffiniadau penodol hefyd ar gyfer yr hyn sy'n gyfystyr ag effaith arwyddocaol, mân effaith neu effaith niwtral ar gyfer pob un o 15 amcan yr ACI; mae'r rhain i'w gweld yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

3.5.4. Ar gyfer pob effaith a nodir, bydd sgôr yn cael ei roi gan ddefnyddio'r fframwaith a gyflwynir yn Nhabl 3-1. Bydd hyn yn cael ei wneud gan ddefnyddio dyfarniad arbenigol yn dilyn adolygiad o'r dystiolaeth sydd ar gael. Bydd yr holl dystiolaeth/ tybiaethau a ddefnyddiwyd i wneud y dyfarniadau hyn yn cael eu cofnodi.

**Tabl 3-4 – Allwedd a chanllaw cryno'r ACI ar gyfer yr asesiad o arwyddocâd**

| Symbol | Sgôr | Disgrifiad |
|---|---|---|
| ++ | Effaith gadarnhaol arwyddocaol | Mae'r opsiwn/polisi arfaethedig yn cyfrannu'n arwyddocaol at gyflawni'r amcan. |
| + | Mân effaith gadarnhaol | Mae'r opsiwn/polisi arfaethedig yn cyfrannu at gyflawni'r amcan ond nid yn arwyddocaol. |
| 0 | Niwtral/dim effaith | Nid yw'r opsiwn/polisi arfaethedig yn cael unrhyw effaith ar gyflawni'r amcan |
| - | Mân effaith negyddol | Mae'r opsiwn/polisi arfaethedig yn amharu ar gyflawniad yr amcan ond nid yn arwyddocaol. |
| -- | Effaith negyddol arwyddocaol | Mae'r opsiwn/polisi arfaethedig yn amharu'n arwyddocaol ar gyflawniad yr amcan. |
| ? | Effaith ansicr | Mae gan yr opsiwn/polisi arfaethedig berthynas ansicr â'r amcan neu mae'r berthynas yn dibynnu ar y ffordd y rheolir yr agwedd. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Hefyd, efallai fod gwybodaeth annigonol ar gael i alluogi arfarniad i gael ei wneud. |
| ~ | Dim Perthynas | Nid oes unrhyw berthynas eglur rhwng yr opsiwn/polisi arfaethedig a chyflawni'r amcan neu mae'r berthynas yn ddibwys. |

## 3.6 Lliniaru a monitro effeithiau arwyddocaol

3.6.1. Pan fydd effaith negyddol arwyddocaol wedi cael ei nodi, dylid rhoi mesurau ar waith i atal, lleihau neu fantoli'r effaith. Hefyd, dylid awgrymu camau lliniaru ar gyfer unrhyw effaith ansicr er mwyn lleihau ansicrwydd a'r potensial i hyn arwain at effaith negyddol arwyddocaol. Pan fo'n berthnasol, bydd mesurau gwella yn cael eu hawgrymu i wella effeithiau cadarnhaol polisïau. Mae monitro effeithiau negyddol arwyddocaol ac ansicr posibl hefyd yn rhan bwysig o broses yr ACI ac yn helpu i nodi effeithiau niweidiol na ragwelwyd yn gynnar, gan sicrhau bod camau unioni priodol yn cael eu cymryd. Bydd mesurau monitro yn cael eu hawgrymu ar gyfer effeithiau arwyddocaol ac ansicr.

## 3.7 Arfarnu Effeithiau Eilaidd, Cronnol a Synergyddol

3.7.1. Mae'r Rheoliadau AAS yn ei gwneud yn ofynnol i effeithiau eilaidd, cronnol a synergyddol gael eu hystyried yn rhan o'r ACI. Diffinnir y rhain fel a ganlyn[6]:

- **Eilaidd (neu anuniongyrchol):** Effeithiau nad ydynt yn digwydd o ganlyniad uniongyrchol i weithrediad y CDLIN ond sy'n digwydd ar wahân i'r effeithiau uniongyrchol neu o ganlyniad i lwybr cymhleth.
- **Cronnol:** Effeithiau sy'n digwydd pan fydd sawl gweithgaredd unigol y gallai pob un ohonynt gael effaith nad yw'n arwyddocaol gyfuno i gael effaith arwyddocaol. Gallai enghreifftiau o effaith gronnol sy'n deillio o weithredu'r CDLIN gynnwys effeithiau posibl ar Safleoedd Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol lle mae cynefin neu rywogaeth yn agored i niwed ac effeithiau cronnol aflonyddu ac allyriadau llygryddion sy'n deillio o ddatblygu a gweithredu yn achosi effaith arwyddocaol. Bydd effeithiau cronnol hefyd yn cynnwys effeithiau posibl (os o gwbl) cynllun neu weithgaredd arfaethedig o dan y cynllun ac unrhyw gynllun arfaethedig arall a/neu ddatblygiadau y rhoddwyd cydsyniad iddynt.
- **Synergyddol:** Effeithiau sy'n rhyngweithio i gynhyrchu cyfanswm effaith sy'n fwy na swm yr effeithiau unigol.

3.7.2. Trwy arfarnu'r Strategaeth a Ffefrir, y dull a amlinellwyd yn gynharach ym mhennod 3, mae effeithiau cronnol y Strategaeth a Ffefrir ar y cyd â chynlluniau a rhaglenni eraill wedi cael

[6] Nid yw'r termau hyn yn annibynnol ar ei gilydd, yn aml cymerir y term effeithiau cronnol i gynnwys eilaidd a synergyddol.

eu hystyried. Arfarnwyd hyn fesul pwnc i nodi effeithiau cronnol arwyddocaol tebygol gan ddefnyddio’r system sgorio a amlinellir yn Nhabl 3-4.

## 3.8 Anawsterau Technegol

### Agweddau Ansicr

3.8.1. Nodwyd yr agweddau ansicr canlynol wrth gwblhau Adroddiad Cychwynnol hwn yr ACI ac a allai ddod yn berthnasol i’r arfarniad dilynol wedyn:

- mae union leoliad datblygiadau newydd yn anhysbys ar hyn o bryd;
- mae amseriad a darpariaeth datblygiadau newydd yn anhysbys ar hyn o bryd;
- mae dyluniad manwl unrhyw ddatblygiad a seilwaith cysylltiedig yn anhysbys; ac
- mae newidiadau yn y dyfodol i’r llinell sylfaen gymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y tu hwnt i’r rhai a amlinellwyd yn anodd eu rhagweld yng ngoleuni hyd cyfnod y cynllun ac oes y datblygiad.

# 4

# ACI o’r Weledigaeth a’r Amcanion

# 4 ACI o’r Weledigaeth a’r Amcanion

## 4.1 Cyflwyniad

4.1.1. Cynhaliwyd asesiad cydweddoldeb o weledigaeth ac amcanion y CDLIN yn erbyn Amcanion yr ACI. Cyflwynir canfyddiadau hwn yn Nhabl 4-2 ac fe’u crynhoir isod gan gyflwyno’r allwedd yn Nhabl 4-1.

## 4.2 Canfyddiadau’r asesiad cydweddoldeb

4.2.1. Mae holl Amcanion yr ACI yn cael eu cefnogi’n gyffredinol gan weledigaeth y CDLIN ac un neu fwy o Amcanion y CDLIN ac i’r gwrthwyneb, sy’n awgrymu eu bod yn cydweddu ac yn atgyfnerthu ei gilydd i’r un graddau.

4.2.2. Ar y cyfan, nodir cysylltiadau cadarnhaol, yn enwedig o ran y ddarpariaeth o dai, datblygu economaidd, iechyd a llesiant, datblygu cynaliadwy, bioamrywiaeth a diogelu tirwedd, ac mae’r rhain yn adlewyrchu rhai o fwriadau sylfaenol darpariaeth y CDLIN.

4.2.3. Nodir gwahanol agweddau ansicr yn ymwneud â chydweddoldeb datblygu economaidd â dyheadau datblygu cynaliadwy, yn enwedig o ran hyrwyddo mesurau trafnidiaeth gynaliadwy a lliniaru rhag y newid yn yr hinsawdd, gan adlewyrchu’r heriau posibl sy’n gysylltiedig â’r trawsnewid i gymdeithas carbon isel. Bydd manylion polisi a’i weithrediad yn bwysig i ddatrys agweddau ansicr o’r fath.

4.2.4. Ni nodwyd unrhyw gysylltiadau negyddol, sy’n awgrymu bod yr ACI a’r CDLIN yn gyson i raddau helaeth yn eu hystyriaeth o ystod a bwriad yr amcanion.

**Tabl 4-1 – Allwedd yr Asesiad Cydweddoldeb**

| Symbol | | Symbol | | Symbol | | Symbol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| + | Cydweddu | 0 | Niwtral | ? | Ansicr | - | Anghydweddu |

## Tabl 4-2 – Asesiad Cydweddoldeb yr ACI a'r CDLIN

| Amcan y CDLIN<br>Amcan yr ACI | **GWELEDIGAETH** | Amcan 1 – Newid yn yr Hinsawdd | Amcan 2 – Adferiad Natur | Amcan 3 – Amgylcheddau Naturiol, Hanesyddol ac Adeiledig | Amcan 4 – Adnoddau Mwynol | Amcan 5 – Teithio Cynaliadwy | Amcan 6 - Creu Lleoedd | Amcan 7 – Twf Cynaliadwy | Amcan 8 – Iechyd a Llesiant | Amcan 9 – Aneddiadau a Chymunedau Cynaliadwy | Amcan 10 – Diwallu Anghenion y Dyfodol | Amcan 11 – Y Gymraeg | Amcan 12 – Anghenion Tai | Amcan 13 – Cyfleusterau ac Asedau Cymunedol | Amcan 14 – Economi Fywiog | Amcan 15 – Datblygu Economaidd | Amcan 16 – Bargen Twf Canolbarth Cymru | Amcan 17 - Twristiaeth | Amcan 18 – Canol Trefi | Amcan 19 – Darparu Seilwaith | Amcan 20 – Seilwaith a Chysylltedd Digidol | Amcan 21 – Ynni a Datgarboneiddio | Amcan 22 - Gwastraff |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Amcan 1 yr ACI: Darparu cartrefi o ansawdd da a seilwaith cymunedol i ddiwallu anghenion a nodwyd | + | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | + | + | + | + | + | ? | + | + | + | + | ? | 0 | ? | + | + | ? | ? |
| Amcan 2 yr ACI: Creu a chefnogi economi a gweithlu cryf, amrywiol a gwydn | + | 0 | 0 | 0 | 0 | + | + | + | + | + | + | ? | ? | 0 | + | + | + | + | + | + | + | ? | 0 |
| Amcan 3 yr ACI: Lleihau tlodi ac anghydraddoldeb; mynd i'r afael ag allgau cymdeithasol a hybu cydlyniant cymunedol | + | 0 | 0 | 0 | 0 | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | 0 | + | + | + | ? | ? |
| Amcan 4 yr ACI: Gwarchod, hyrwyddo a gwella'r iaith Gymraeg a'i diwylliant | + | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | + | 0 | + | + | 0 | + | + | + | 0 | 0 | 0 | + | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Amcan 5 yr ACI: Gwella iechyd a lles pob rhan o gymdeithas | + | 0 | + | + | 0 | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | ? | + | + | + | ? | 0 |
| Amcan 6 yr ACI: Gwneud y defnydd gorau o dir a ddatblygwyd o'r blaen ac | ? | 0 | + | + | 0 | 0 | + | + | 0 | 0 | ? | 0 | ? | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | + | 0 | 0 | 0 | + |

| Amcan y CDLIN / Amcan yr ACI | GWELEDIGAETH | Amcan 1 – Newid yn yr Hinsawdd | Amcan 2 – Adferiad Natur | Amcan 3 – Amgylcheddau Naturiol, Hanesyddol ac Adeiledig | Amcan 4 – Adnoddau Mwynol | Amcan 5 – Teithio Cynaliadwy | Amcan 6 - Creu Lleoedd | Amcan 7 – Twf Cynaliadwy | Amcan 8 – Iechyd a Llesiant | Amcan 9 – Aneddiadau a Chymunedau Cynaliadwy | Amcan 10 – Diwallu Anghenion y Dyfodol | Amcan 11 – Y Gymraeg | Amcan 12 – Anghenion Tai | Amcan 13 – Cyfleusterau ac Asedau Cymunedol | Amcan 14 – Economi Fywiog | Amcan 15 – Datblygu Economaidd | Amcan 16 – Bargen Twf Canolbarth Cymru | Amcan 17 - Twristiaeth | Amcan 18 – Canol Trefi | Amcan 19 – Darparu Seilwaith | Amcan 20 – Seilwaith a Chysylltedd Digidol | Amcan 21 – Ynni a Datgarboneiddio | Amcan 22 - Gwastraff |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| adeiladau presennol a diogelu tir amaethyddol gradd uwch | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Amcan 7 yr ACI: Cadw, gwarchod a gwella ansawdd dŵr ac adnoddau dŵr | + | + | + | + | 0 | 0 | 0 | + | + | 0 | + | 0 | ? | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Amcan 8 yr ACI: Cadw i isafswm neu leihau ffynonellau ac effeithiau llygredd aer | + | + | + | + | 0 | + | 0 | + | + | 0 | + | 0 | ? | 0 | 0 | ? | 0 | 0 | + | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Amcan 9 yr ACI: Lleihau'r gwastraff a gynhyrchir, annog ailddefnyddio ac ailgylchu a hyrwyddo defnydd effeithlon o adnoddau mwynol | ? | 0 | 0 | 0 | + | 0 | 0 | + | 0 | 0 | + | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | + |
| Amcan 10 yr ACI: Cefnogi gwytnwch Powys i effeithiau posibl newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys llifogydd a digwyddiadau eithafol eraill | + | + | + | + | 0 | 0 | + | + | + | + | ? | 0 | 0 | 0 | ? | ? | ? | ? | 0 | 0 | 0 | + | 0 |
| Amcan 11 yr ACI: Lleihau cyfraniad allyriadau nwyon tŷ gwydr at newid hinsawdd | + | + | 0 | 0 | 0 | + | 0 | + | 0 | ? | 0 | 0 | 0 | 0 | ? | ? | ? | ? | 0 | 0 | 0 | + | 0 |
| Amcan 12 yr ACI: Hyrwyddo defnydd cynaliadwy o | + | + | 0 | 0 | 0 | + | + | + | + | + | ? | 0 | ? | + | ? | ? | ? | ? | + | + | 0 | + | 0 |

| Amcan y CDLIN / Amcan yr ACI | GWELEDIGAETH | Amcan 1 – Newid yn yr Hinsawdd | Amcan 2 – Adferiad Natur | Amcan 3 – Amgylcheddau Naturiol, Hanesyddol ac Adeiledig | Amcan 4 – Adnoddau Mwynol | Amcan 5 – Teithio Cynaliadwy | Amcan 6 - Creu Lleoedd | Amcan 7 – Twf Cynaliadwy | Amcan 8 – Iechyd a Llesiant | Amcan 9 – Aneddiadau a Chymunedau Cynaliadwy | Amcan 10 – Diwallu Anghenion y Dyfodol | Amcan 11 – Y Gymraeg | Amcan 12 – Anghenion Tai | Amcan 13 – Cyfleusterau ac Asedau Cymunedol | Amcan 14 – Economi Fywiog | Amcan 15 – Datblygu Economaidd | Amcan 16 – Bargen Twf Canolbarth Cymru | Amcan 17 - Twristiaeth | Amcan 18 – Canol Trefi | Amcan 19 – Darparu Seilwaith | Amcan 20 – Seilwaith a Chysylltedd Digidol | Amcan 21 – Ynni a Datgarboneiddio | Amcan 22 - Gwastraff |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| drafnidiaeth a lleihau'r angen i deithio | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Amcan 13 yr ACI: Cadw a gwella adnodd treftadaeth Powys, gan gynnwys asedau adeiledig ac archeolegol | + | + | 0 | + | 0 | 0 | + | + | + | + | 0 | + | 0 | 0 | + | + | 0 | + | + | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Amcan 14 yr ACI: Gwarchod a gwella bioamrywiaeth a geoamrywiaeth a hyrwyddo gwelliannau i'r rhwydwaith seilwaith gwyrdd amlswyddogaethol | + | + | + | + | 0 | + | + | + | + | + | + | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | + | 0 | + | 0 | 0 | 0 |
| Amcan 15 yr ACI: Gwarchod ansawdd ac amrywiaeth tirweddau a threfluniau lleol dynodedig | + | 0 | + | + | + | 0 | + | + | + | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | + | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

# 5

# ACI o Opsiynau Strategol

# 5 ACI o Opsiynau Strategol

## 5.1 Cyflwyniad

Mae'r bennod hon yn cyflwyno trosolwg o'r opsiynau twf a gofodol a nodir yn y ddogfen Strategaeth a Ffefrir ynghyd â chanfyddiadau'r ACI ar gyfer yr opsiynau hyn.

## 5.2 Opsiynau Twf a Gofodol

5.2.1. Un o brif ddibenion y Strategaeth a Ffefrir yw nodi'n eglur lefel y twf a'i ddosbarthiad gofodol i wireddu Gweledigaeth ac Amcanion y CDLIN. Yn rhan o hyn, ceir gofyniad i gynnal dadansoddiad o wahanol opsiynau twf a gofodol i hysbysu'r Strategaeth a Ffefrir. Cyflwynir yr opsiynau isod ac fe'u hysbyswyd gan amrywiaeth o ffactorau cyflenwad a galw a darnau allweddol o dystiolaeth, fel Asesiad Aneddiadau, Asesiad Marchnad Dai Leol (LHMA), Asesiad Anghenion Cyflogaeth, Adroddiad Tystiolaeth Ddemograffig ac Asesiad Dichonoldeb Cychwynnol.

### Opsiynau Twf

5.2.2. Wedi'i hysbysu gan yr LHMA a'r Adroddiad Tystiolaeth Ddemograffig, mae'r Strategaeth a Ffefrir yn nodi chwe senario twf a grwpiwyd fel tri opsiwn twf: Opsiynau Twf lefel Is, Canolig ac Uwch. Cyflwynir y rhain yn Nhabl 5-1 ochr yn ochr ag opsiynau twf ar gyfer cyfanswm y ddarpariaeth tir cyflogaeth, a nodwyd gan yr Asesiad Anghenion Cyflogaeth.

**Tabl 5-1 – Opsiynau Twf**

| Opsiwn | Cyfradd Adeiladu Flynyddol Ragweledig | Gofyniad Tai | Ffigur Darpariaeth Tai (+21%) | Cyfanswm y Ddarpariaeth Tir Cyflogaeth (ha) |
|---|---|---|---|---|
| Uwch | 264 - 288 | 3,960 - 4,320 | 4,792 - 5,227 | 40 |
| Canolig | 203 - 220 | 3,045 - 3,300 | 3,684 - 3,993 | 32 |
| Is | 172 - 179 | 2,580 - 2,682 | 3,122 - 3,245 | 32 |

### Opsiynau Gofodol

5.2.3. Nodwyd Opsiynau Gofodol yn rhan o ddatblygiad y Strategaeth a Ffefrir a dylanwadwyd ar y rhain gan bolisïau Cymru'r Dyfodol a chynlluniau a strategaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol eraill.

5.2.4. Nodwyd pedwar Opsiwn Gofodol ar gyfer tai i'w hystyried, fel a ganlyn:

- **Parhau Strategaeth CDLl Mabwysiedig Powys (2011-2026)** – yn hyrwyddo twf cymesur i atgyfnerthu'r rhwydwaith o drefi marchnad a phentrefi ym Mhowys. Nod y

strategaeth oedd dosbarthu twf ar sail pro-rata yn ôl poblogaeth/maint presennol anheddiad a’r gwasanaethau/cyfleusterau sydd ar gael. Gweler Ffigur 5-1.

- **Wedi’i Arwain gan Dai Fforddiadwy** – lle mae’r holl ddyraniadau tai ‘newydd’ ar gyfer tai fforddiadwy, wedi’u dosbarthu yn unol â’r angen a gydnabuwyd ar draws pob Ardal Marchnad Dai Leol (LHMA). Gweler Ffigur 5-2.
- **Dosraniad Poblogaeth (Twf Gwasgaredig)** – lle dosbarthir tai ‘newydd’ ar draws yr LHMAs yn gymesur â’r boblogaeth ym mhob LHMA. Gweler Ffigur 5-3.
- **Wedi’i Arwain gan Ardaloedd Twf Rhanbarthol (Twf wedi’i Ganolbwyntio)** - lle mae mwyafrif y tai ‘newydd’ yn cael eu dosbarthu ymhlith aneddiadau mewn Clystyrau Ardaloedd Twf Rhanbarthol (RGAs), gan alluogi lefelau is o dwf o fewn aneddiadau mewn Clystyrau Lleol tra bydd datblygiad mewn rhannau eraill o ardal y cynllun yn gymesur a phriodol i ddiwallu anghenion a nodwyd ac i gefnogi cymunedau gwledig cynaliadwy. Gweler Ffigur 5-4.

**Ffigur 5-1 – Opsiwn y CDLl Mabwysiedig**




**Ffigur 5-2 – Opsiwn Wedi'i Arwain gan Dai Fforddiadwy**




**Ffigur 5-3 – Opsiwn Wedi'i Arwain gan Ddosraniad Poblogaeth**




**Ffigur 5-4 - Opsiwn Wedi'i Arwain gan Ardaloedd Twf Rhanbarthol**




5.2.5. Nodwyd dau Opsiwn Gofodol ar gyfer cyflogaeth i'w hystyried, fel a ganlyn:

- **Ardaloedd Marchnad Fasnachol** - wedi'u dosbarthu gan gydnabod lleoliad safleoedd cyflogaeth presennol yn unol â'r CDLl Mabwysiedig (bydd safleoedd cyflogaeth presennol yn cael eu diogelu; polisi CDLl Mabwysiedig yn caniatáu estyniadau i safleoedd presennol gael eu hymgorffori yn y CDLlN).
- **Wedi'i arwain gan y farchnad** – wedi'u dosbarthu yn unol â Galw'r Farchnad.

## 5.3 ACI o'r Opsiynau Twf a Gofodol

5.3.1. Mae'r adran hon yn cyflwyno canfyddiadau cryno'r arfarniad o'r Opsiwn Twf a Gofodol a nodir uchod. Darperir y matricsau arfarnu manwl yn Atodiad C.

Cyflwynir y dull ar gyfer sut y cynhaliwyd yr arfarniad ym Mhennod 3; fodd bynnag, darperir allwedd a chanllaw cryno'r arfarniad ar gyfer asesu arwyddocâd eto isod yn Nhabl 5-2.

**Tabl 5-2 – Allwedd a chanllaw cryno'r ACI ar gyfer yr asesiad o arwyddocâd**

| Symbol | Sgôr | Disgrifiad |
|---|---|---|
| ++ | Effaith gadarnhaol arwyddocaol | Mae'r opsiwn/polisi arfaethedig yn cyfrannu'n arwyddocaol at gyflawni'r amcan. |
| + | Mân effaith gadarnhaol | Mae'r opsiwn/polisi arfaethedig yn cyfrannu at gyflawni'r amcan ond nid yn arwyddocaol. |
| 0 | Niwtral/dim effaith | Nid yw'r opsiwn/polisi arfaethedig yn cael unrhyw effaith ar gyflawni'r amcan |
| - | Mân effaith negyddol | Mae'r opsiwn/polisi arfaethedig yn amharu ar gyflawniad yr amcan ond nid yn arwyddocaol. |
| -- | Effaith negyddol arwyddocaol | Mae'r opsiwn/polisi arfaethedig yn amharu'n arwyddocaol ar gyflawniad yr amcan. |
| ? | Effaith ansicr | Mae gan yr opsiwn/polisi arfaethedig berthynas ansicr â'r amcan neu mae'r berthynas yn dibynnu ar y ffordd y rheolir yr agwedd. Hefyd, efallai fod gwybodaeth annigonol ar gael i alluogi arfarniad i gael ei wneud. |
| ~ | Dim Perthynas | Nid oes unrhyw berthynas eglur rhwng yr opsiwn/polisi arfaethedig a chyflawni'r amcan neu mae'r berthynas yn ddibwys. |

5.3.3. Cyflwynir crynodeb o'r canfyddiadau ar gyfer yr ACI o'r opsiynau twf a gofodol yn Nhabl 5-3 isod.

**Tabl 5-3 – Crynodeb yr ACI ar gyfer Opsiynau Twf a Gofodol**

| **Pynciau'r ACI** / **Opsiynau Strategol** | Poblogaeth a Chymunedau | Economi a Chyflogaeth | Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant | Y Gymraeg | Iechyd a Llesiant | Defnydd Tir, Priddoedd a Daeareg | Dŵr | Aer | Gwastraff a Defnydd o Adnoddau | Newid yn yr Hinsawdd (addasu) | Newid yn yr Hinsawdd (lliniaru) | Trafnidiaeth a Symudiad | Amgylchedd Hanesyddol | Bioamrywiaeth, Seilwaith Gwyrdd a Geoamrywiaeth | Tirwedd a Threflun |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Twf Tai** | | | | | | | | | | | | | | | |
| Twf Is | **0** | **+/?** | **0** | **0** | **++/?** | **0/?** | **+/?** | **0/?** | **+/?** | **+/?** | **0/?** | **0/?** | **+/?** | **+/?** | **+/?** |
| Twf Canolrifol | **+** | **+/?** | **+** | **+** | **++** | **0/?** | **+/?** | **0/?** | **+/?** | **+/?** | **0/?** | **0/?** | **+/?** | **+/?** | **+/?** |
| Twf Uwch | **++** | **+/?** | **++** | **++** | **++** | **0/?** | **+/?** | **0/?** | **+/?** | **+/?** | **0/?** | **+/?** | **+/?** | **+/?** | **+/?** |
| **Dosbarthiad Gofodol - Tai** | | | | | | | | | | | | | | | |
| Parhau Strategaeth y CDLl | **-** | **+** | **+/?** | **+** | **+** | **0/?** | **+/?** | **0/?** | **+/?** | **+/?** | **0/?** | **+/?** | **+/?** | **+/?** | **+/?** |

| Pynciau'r ACI / Opsiynau Strategol | Poblogaeth a Chymunedau | Economi a Chyflogaeth | Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant | Y Gymraeg | Iechyd a Llesiant | Defnydd Tir, Priddoedd a Daeareg | Dŵr | Aer | Gwastraff a Defnydd o Adnoddau | Newid yn yr Hinsawdd (addasu) | Newid yn yr Hinsawdd (lliniaru) | Trafnidiaeth a Symudiad | Amgylchedd Hanesyddol | Bioamrywiaeth, Seilwaith Gwyrdd a Geoamrywiaeth | Tirwedd a Threflun |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Wedi'i Arwain gan Dai Fforddiadwy | **-** | **-** | **+/?** | **0/?** | **+** | **-/?** | **+/?** | **0/?** | **+/?** | **+/?** | **0/?** | **0/?** | **+/?** | **0/?** | **+/?** |
| Wedi'i Arwain gan Ddosraniad Poblogaeth | **+/?** | **+** | **+/?** | **+** | **++/?** | **-/?** | **+/?** | **0/?** | **+/?** | **+/?** | **0/?** | **0/?** | **+/?** | **+/?** | **+/?** |
| Wedi'i Arwain gan Ardaloedd Twf Rhanbarthol | **++/?** | **++** | **+/?** | **+** | **++/?** | **++/?** | **+/?** | **+/?** | **+/?** | **+/?** | **+/?** | **++/?** | **+/?** | **++/?** | **+/?** |
| **Dosbarthiad Gofodol – Cyflogaeth** | | | | | | | | | | | | | | | |

| Pynciau'r ACI / Opsiynau Strategol | Poblogaeth a Chymunedau | Economi a Chyflogaeth | Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant | Y Gymraeg | Iechyd a Llesiant | Defnydd Tir, Priddoedd a Daeareg | Dŵr | Aer | Gwastraff a Defnydd o Adnoddau | Newid yn yr Hinsawdd (addasu) | Newid yn yr Hinsawdd (lliniaru) | Trafnidiaeth a Symudiad | Amgylchedd Hanesyddol | Bioamrywiaeth, Seilwaith Gwyrdd a Geoamrywiaeth | Tirwedd a Threflun |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CDLl Mabwysiedig | **++/?** | **++** | **++/?** | **+/?** | **++** | **+/?** | **+/?** | **0** | **+/?** | **+/?** | **0/?** | **0** | **+/?** | **+/?** | **+/?** |
| Wedi'i Arwain gan y Farchnad | **+/?** | **++** | **0/?** | **-/?** | **+/?** | **-/?** | **+/?** | **-/?** | **+/?** | **+/?** | **0/?** | **0** | **0/?** | **0/?** | **0/?** |

5.3.4. O’r tri opsiwn ar gyfer twf ym Mhowys (is, canolig ac uwch), yr opsiwn twf uwch sy’n perfformio gryfaf, gan adlewyrchu’r cyfle i fodloni galw am dai, i leihau anfantais ac o bosibl i atgyfnerthu’r Gymraeg a’i diwylliant trwy alluogi pobl leol i ddod o hyd i dai. Yn benodol, gallai datblygiadau bach gefnogi cynaliadwyedd parhaus cymunedau bach â darpariaeth gwasanaethau gyfyngedig a phoblogaethau sydd o bosibl yn lleihau. Mae gan bob opsiwn twf y potensial i gefnogi cysylltedd cynefinoedd, darpariaeth seilwaith gwyrdd, darpariaeth mannau agored a mesurau gwyrddu trefol (Bioamrywiaeth, Seilwaith Gwyrdd a Geoamrywiaeth), y mae pob un ohonynt yn cefnogi gwydnwch hinsawdd gwell (addasu i’r Newid yn yr Hinsawdd) ac iechyd a llesiant (Iechyd a Llesiant). Yn yr un modd, mae twf uwch yn cynnig cyfleoedd i ailddefnyddio ac adfer adeiladau ac ardaloedd o werth treftadaeth, gan gynnwys trwy dwristiaeth ychwanegol, gan fod o fudd i ddatblygu economaidd yn sgil hynny (Economi a Chyflogaeth), yn ogystal â diogelu a hybu’r Gymraeg a'i diwylliant (y Gymraeg) o’i dargedu’n briodol. Yn fwy anturus, mae arloesiadau fel rhwydweithiau gwres wedi’u datganoli yn fwy tebygol o fod yn ymarferol trwy dwf tai uwch, gan gyfrannu wedyn at leihad Powys i achosion y newid yn yr hinsawdd (lliniaru rhag y Newid yn yr Hinsawdd). Yn yr un modd, mae darparu atebion trafnidiaeth cynaliadwy fel darpariaeth o fysiau neu greu rhwydweithiau beicio (Trafnidiaeth a Symudiad) yn dod yn fwy ymarferol.

5.3.5. Er iddynt berfformio’n gadarnhaol yn erbyn llawer o Amcanion yr ACI, mae’r opsiynau twf is a chanolig wedi’u cyfuno yn llai cadarnhaol gan eu bod yn cynnig llai o gyfleoedd i sicrhau’r buddion ehangach sy’n debygol o fod yn gysylltiedig â’r opsiwn twf uwch. Er y bydd rhai datblygiadau wedi’u harwain gan dir llwyd (Defnydd Tir, Priddoedd a Daeareg), bydd angen datblygu tir maes glas a gallai beryglu bioamrywiaeth, rhywogaethau a chynefinoedd (Bioamrywiaeth, Seilwaith Gwyrdd a Geoamrywiaeth) neu gael effeithiau niweidiol fel sŵn ac allyriadau (Aer) yn gysylltiedig ag adeiladu a meddiannu datblygiadau newydd. Bydd maint unrhyw effeithiau negyddol lleol yn hyn o beth yn ddibynnol ar faint y tir maes glas a gollir i ddatblygiad a gwerth bioamrywiaeth presennol y safleoedd a fyddai’n cael eu heffeithio. Yn yr un modd, gellid cael effeithiau lleol negyddol ar dreftadaeth (Amgylchedd Hanesyddol) neu dirwedd/ treflun (Tirwedd a Threflun) ond maent yn debygol o gael eu lliniaru trwy ddetholiad safleoedd a gweithredu polisïau rheoli datblygiad.

5.3.6. Ym mhob achos, er bod amrywiaeth o agweddau ansicr wedi’u nodi (o ran, er enghraifft, effeithiau bioamrywiaeth sy’n adlewyrchu dylanwad amgylchiadau lleol), ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol. Mae hyn yn adlewyrchu’r cwantwm cymharol isel o dwf arfaethedig ar draws pob un o’r tri opsiwn i’w ddosbarthu ar draws ardal y Cynllun.

5.3.7. O ran opsiynau dosbarthiad gofodol ar gyfer tai, mae’r opsiwn Wedi’i Arwain gan Ardaloedd Twf Rhanbarthol yn dangos yr aliniad posibl mwyaf ag amcanion yr ACI yn eu cyfanrwydd, sy’n adlewyrchu’r cyfle i fodloni’r galw am dai a’u cyflenwad, y ddarpariaeth o dwf cyflogaeth cysylltiedig a gwireddu cyfleoedd ar gyfer y teithio cynaliadwy. Mae’r opsiwn yn cynnig effeithiau cadarnhaol arwyddocaol o ran sicrhau twf tai (Poblogaeth a Chymunedau), gwella cyfleoedd economaidd (Economi a Chyflogaeth), gwella iechyd a llesiant (Iechyd a Llesiant)

a gwella'r ddarpariaeth o seilwaith gwyrdd (Bioamrywiaeth, Seilwaith Gwyrdd a Geoamrywiaeth) a'r ddarpariaeth o drafnidiaeth gynaliadwy (Trafnidiaeth a Symudiad) trwy gyfleoedd buddsoddi. Yn yr un modd, mae arloesoedd mewn technolegau fel rhwydweithiau gwres wedi'u datganoli, a fydd o fudd i ymateb Powys i'r newid yn yr hinsawdd (lliniaru rhag y Newid yn yr Hinsawdd) a gwneud y defnydd gorau o sir a ddatblygwyd yn flaenorol (Defnydd Tir, Priddoedd a Daeareg) yn fwy tebygol o dan senarios twf crynodedig.

5.3.8. Mae opsiynau gofodol y strategaeth CDLl Mabwysiedig, Wedi'i Arwain gan Dai Fforddiadwy ac Wedi'i Arwain gan Ddosraniad Poblogaeth yn achosi cyfaddawdau a rhai effeithiau negyddol tebygol, yn erbyn Amcanion amrywiol yr ACI, ac yn fwyaf amlwg o ran llai o gyfleoedd i ddefnyddio tir a ddatblygwyd yn flaenorol (Defnydd Tir, Priddoedd a Daeareg). Hefyd, mae'n debygol y bydd effeithiau negyddol o ran y ddarpariaeth o ddewisiadau tai sy'n diwallu anghenion pawb (Poblogaeth a Chymunedau) a datblygu economaidd (Economi a Chyflogaeth) (yn achos yr opsiwn wedi'i arwain gan dai fforddiadwy). Yn achos y Strategaeth CDLl Mabwysiedig, mae AMR 2023 yn nodi bod cyfanswm o 2,809 o gartrefi newydd wedi cael eu darparu ers dyddiad cychwyn y CDLl mabwysiedig yn 2011, sydd tua 62% o darged tai cyffredinol y CDLl y mae'n ofynnol ei gyrraedd erbyn 2026.

5.3.9. Mae'r opsiynau dosbarthiad gofodol ar gyfer cyflogaeth yn ffafrio strategaeth Wedi'i Harwain gan Ardaloedd Marchnad Fasnachol (yn defnyddio pedair ardal marchnad a nodwyd sef Gogledd Meingefn yr A483, y Gorllewin Gwledig, Canolbarth Powys ac Ardaloedd y Ffin) wedi'i hysbysu gan y dosbarthiad o safleoedd cyflogaeth o fewn neu'n agos at aneddiadau haen uwch yn y CDLl Mabwysiedig. Mae hyn yn cyferbynnu â dull dilyffethair wedi'i arwain gan y farchnad, gan adlewyrchu'r tebygolrwydd uwch o ddarparu ymateb cytbwys i angen a nodwyd. Gallai dull Wedi'i Arwain gan y Farchnad arwain at ganlyniadau anfwriadol yn gysylltiedig â datblygiad ddim yn adlewyrchu amrywiaeth eang o ystyriaethau, fel yr angen i ddarparu amrywiaeth eang o gyfleoedd cyflogaeth yn agos at le mae pobl yn byw (Economi a Chyflogaeth a Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant) a llai o gyfleoedd ar gyfer lliniaru effeithiau negyddol fel allyriadau traffig (Aer).

5.3.10. Ar draws yr holl sgoriau, dylid nodi presenoldeb ansicrwydd, gan adlewyrchu'r angen am fwy o ddadansoddi yng ngoleuni polisïau strategol a rheoli datblygiadau a gweithrediad penodol i safleoedd cynigion datblygu.

5.3.11. Gan adlewyrchu'r canfyddiadau a'r dadansoddiad a gyflwynir uchod, mae trefn gymharol yr opsiynau yn dangos (gweler Tabl 5-4), ar y cyfan, dilyniant a ffefrir o opsiwn tai Twf Uchel, â dosbarthiad Wedi'i Arwain gan Ardaloedd Twf Rhanbarthol.

**Tabl 5-4 – Trefn Opsiynau Twf a Gofodol**

| **Opsiynau** | **Safle** |
|---|---|
| ***Twf Tai*** | |
| Twf Is | 3 |
| Twf Canolrifol | 2 |
| Twf Uwch | 1 |
| *Dosbarthiad Gofodol - Tai* | |
| **Strategaeth y CDLl Mabwysiedig** | 2= |
| Wedi'i Arwain gan Dai Fforddiadwy | 3 |
| Wedi'i Arwain gan Ddosraniad Poblogaeth | 2= |
| Wedi'i Arwain gan Ardaloedd Twf Rhanbarthol | 1 |
| ***Dosbarthiad Gofodol – Cyflogaeth*** | |
| CDLl Mabwysiedig | 1 |
| Wedi'i Arwain gan y Farchnad | 2 |

# 6

# ACI o’r Strategaeth a Ffefrir gan gynnwys Polisïau Strategol

Cyhoeddus

# 6 ACI o'r Strategaeth a Ffefrir gan gynnwys Polisïau Strategol

## 6.1 Cyflwyniad

6.1.1. Mae'r bennod hon o adroddiad yr ACI yn cyflwyno canfyddiadau Strategaeth a Ffefrir y CDLIN, a gyflawnwyd yn unol â'r dull a ddisgrifir ym **Mhennod 3**. Gan fanteisio ar yr asesiadau manwl seiliedig ar bwnc sydd wedi'u cynnwys yn Atodiad D, mae'n cynnig trosolwg o'r effeithiau arwyddocaol tebygol ar Strategaeth a Ffefrir y CDLIN. Rhoddir ystyriaeth i effeithiau cronnol gyda chynlluniau, rhaglenni a phrosiectau eraill yn **Adran 6.3**.

## 6.2 Canfyddiadau cryno'r ACI

6.2.1. Mae Tabl 6-1 isod yn cyflwyno'r canfyddiadau cryno ar gyfer yr arfarniad o'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd. Cyflwynir yr asesiadau mwy manwl seiliedig ar bwnc yn Atodiad D.

**Tabl 6-1 – Crynodeb yr ACI o'r Strategaeth a Ffefrir**

| Pwnc ac Amcan yr ACI | Effaith Arwyddocaol Weddilliol Debygol |
|---|---|
| **Poblogaeth a Chymunedau**<br>Darparu cartrefi o ansawdd da a seilwaith cymunedol i ddiwallu anghenion a nodwyd | ++/? |
| **Economi a Chyflogaeth**<br>Creu a chefnogi economi a gweithlu cryf, amrywiol a gwydn | ++/? |
| **Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant**<br>Lleihau tlodi ac anghydraddoldeb; mynd i'r afael ag allgau cymdeithasol a hybu cydlyniant cymunedol | +/? |
| **Y Gymraeg**<br>Gwarchod, hyrwyddo a gwella'r iaith Gymraeg a'i diwylliant | +/? |
| **Iechyd a Llesiant**<br>Gwella iechyd a lles pob rhan o gymdeithas | +/? |
| **Defnydd Tir, Priddoedd a Daeareg**<br>Gwneud y defnydd gorau o dir a ddatblygwyd o'r blaen ac adeiladau presennol a diogelu tir amaethyddol gradd uwch | +/? |
| **Dŵr**<br>Cadw, gwarchod a gwella ansawdd dŵr ac adnoddau dŵr | 0/? |
| **Aer**<br>Cadw i isafswm neu leihau ffynonellau ac effeithiau llygredd aer | 0/? |

| Pwnc ac Amcan yr ACI | Effaith Arwyddocaol Weddilliol Debygol |
|---|---|
| **Gwastraff a Defnydd o Adnoddau**<br>Lleihau'r gwastraff a gynhyrchir, annog ailddefnyddio ac ailgylchu a hyrwyddo defnydd effeithlon o adnoddau mwynol | **+/?** |
| **Newid yn yr Hinsawdd (Addasu)**<br>Cefnogi gwytnwch Powys i effeithiau posibl newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys llifogydd a digwyddiadau eithafol eraill | **+/?** |
| **Newid yn yr Hinsawdd (Lliniaru)**<br>Lleihau cyfraniad allyriadau nwyon tŷ gwydr at newid hinsawdd | **+/?** |
| **Trafnidiaeth a Symudiad**<br>Hyrwyddo defnydd cynaliadwy o drafnidiaeth a lleihau'r angen i deithio | **+/?** |
| **Amgylchedd Hanesyddol**<br>Cadw a gwella adnodd treftadaeth Powys, gan gynnwys asedau adeiledig ac archeolegol | **?** |
| **Bioamrywiaeth, Seilwaith Gwyrdd a Geoamrywiaeth**<br>Gwarchod a gwella bioamrywiaeth a geoamrywiaeth a hyrwyddo gwelliannau i'r rhwydwaith seilwaith gwyrdd amlswyddogaethol | **?** |
| **Tirwedd a Threflun**<br>Gwarchod ansawdd ac amrywiaeth tirweddau a threfluniau lleol dynodedig | **?** |

6.2.2. Canfu'r arfarniad bod y Strategaeth a Ffefrir wedi perfformio'n gadarnhaol yn erbyn y mwyafrif o amcanion yr ACI. Yn enwedig yn erbyn amcanion poblogaeth a chymunedau ac economi a chyflogaeth yr ACI ag effeithiau cadarnhaol hirdymor arwyddocaol, trwy ddarparu cartrefi newydd, cyfleoedd cyflogaeth a seilwaith cymunedol cysylltiedig i ddiwallu anghenion cymunedau. Bydd hyn, ynghyd â chanolbwyntio twf ar yr aneddiadau mwy â mwy o hygyrchedd i wasanaethau/ cyfleusterau ac annog y defnydd o ddulliau trafnidiaeth cynaliadwy (gan gynnwys teithio llesol) yn cael effaith gadarnhaol o ran trafnidiaeth a symudiad yn ogystal â'r newid yn yr hinsawdd (lliniaru).

6.2.3. Nodwyd effeithiau niwtral ar gyfer amcanion ACI yn ymwneud ag ansawdd aer a dŵr. Er na ystyrir bod maint a dosbarthiad eang twf yn debygol o gael effaith negyddol, ni ystyrir bod y Strategaeth a Ffefrir yn debygol o arwain at effaith gadarnhaol ar hyn o bryd.

Nodwyd mân effeithiau cadarnhaol ar gyfer amcan y Gymraeg yr ACI. Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn ceisio darparu lefelau cymesur o gartrefi newydd a chyfleoedd cyflogaeth yng nghadarnleoedd y Gymraeg yng ngogledd-orllewin a de-orllewin Powys. Bydd y strategaeth hefyd yn ceisio cefnogi'r Gymraeg mewn ardaloedd gwledig o Bowys trwy ganiatáu datblygiad i ddiwallu anghenion lleol a thrwy ddarparu tai fforddiadwy. Bydd hyn yn caniatáu i bobl leol aros yn eu cymunedau, lle mae'r Gymraeg

yn rhan annatod o'r adeiladwaith cymdeithasol. Yn dibynnu ar raddfa'r twf, gallai hyn hefyd helpu i ddarparu cyfleusterau neu wasanaethau cymunedol dwyieithog newydd neu well mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Ar y cyfan, mae'r CDLIN yn gweithredu i ddiogelu, hyrwyddo a gwella'r Gymraeg a'i diwylliant, sy'n cefnogi'r nod Llesiant Cenedlaethol: Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.

6.2.4. Ceir elfen o ansicrwydd o ran holl amcanion yr ACI o ystyried natur strategol y Strategaeth a Ffefrir a'r ffaith nad yw union leoliad datblygiad yn hysbys ar hyn o bryd. Mae hyn yn arbennig o wir ar gyfer amcanion yr ACI sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol, bioamrywiaeth, seilwaith gwyrdd a geoamrywiaeth, gan y bydd natur a maint effeithiau yn ddibynnol ar union leoliad, maint a dyluniad datblygiad.

## 6.3 Effeithiau rhyng-gynllun cronnol â chynlluniau, rhaglenni a phrosiectau eraill

6.3.1. Mae Tabl 6-2 yn nodi'n gyffredinol y mathau o gynlluniau a rhaglenni a allai arwain at achosion o ryngweithio ac felly effeithiau cronnol â'r Strategaeth a Ffefrir.

**Tabl 6-2 – Ffynonellau effeithiau cronnol rhyng-gynllun**

| Cynlluniau neu Brosiectau | Crynodeb o Gynlluniau |
|---|---|
| **Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040** | Cymru'r Dyfodol yw'r fframwaith datblygu cenedlaethol ar gyfer Cymru a dyma'r haen uchaf o gynllun datblygu, yn canolbwyntio ar gyfeirio datblygiad ar lefelau rhanbarthol a lleol. Mae'r cynllun yn mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol allweddol drwy'r system gynllunio; o ddatblygu economi fywiog i sicrhau datgarboneiddio a gwella iechyd a llesiant ar draws y wlad. Mae'n nodi ardaloedd twf cenedlaethol a rhanbarthol ac yn sefydlu'r angen i ddatblygu Cynlluniau Datblygu Strategol. |
| **Cynlluniau Datblygu Strategol (Cymru)** | Mae Cynlluniau Datblygu Strategol yn ofynnol i gydymffurfio â Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol 2040 ar draws graddfeydd rhanbarthol ac isranbarthol. Dylent ystyried materion rhanbarthol strategol gan gynnwys ardaloedd twf yn y dyfodol, galw am dai, datblygiad economaidd, trafnidiaeth a seilwaith gwyrdd. |
| **Cynlluniau Datblygu Lleol (Cymru)**<br><br>**Cynlluniau Lleol (Lloegr)** | Mae'n ofynnol i awdurdodau cynllunio yng Nghymru a Lloegr baratoi cynllun datblygu (Cymru) neu gynllun lleol (Lloegr) i lywio'r broses o wneud penderfyniadau am ddatblygiad yn y dyfodol. Mae'r cynlluniau yn ceisio nodi anghenion a chyfleoedd yr ardal; nodi maint a lleoliad twf i'w gyflawni ar draws eu hardal weinyddol briodol. Gallai'r Cynlluniau Datblygu Lleol a'r Cynlluniau Lleol |

| | |
|---|---|
| | sy'n cael eu paratoi yn yr ardaloedd cyfagos ryngweithio a datblygiadau a gynigir yn y CDLIN. |
| **Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021** | Mae Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021 yn amlinellu strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer dyfodol trafnidiaeth yng Nghymru, gan flaenoriaethu creu cymdeithas fwy llewyrchus, gwyrdd, a chyfartal. |
| **Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth 2022** | Mae'r Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth yn cyflwyno gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer system drafnidiaeth hygyrch, gynaliadwy, ac effeithlon. |
| **Cynllun Trafnidiaeth Lleol ar y Cyd Canolbarth Cymru 2015** | Paratowyd Cynllun Trafnidiaeth Lleol Canolbarth Cymru ar y cyd gan Awdurdodau Lleol Powys, Ceredigion, a Gwynedd yng Nghanolbarth Cymru. Mae'r cynllun yn nodi'r polisïau/strategaethau trafnidiaeth i'w darparu ar draws yr ardal. |
| **Fframwaith Economaidd Rhanbarthol ar gyfer Canolbarth Cymru** | Mae'r Fframwaith Economaidd Rhanbarthol ar gyfer Canolbarth Cymru yn cefnogi model â phwyslais rhanbarthol o ddatblygu economaidd sy'n cyd-fynd â Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru. |
| **Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr (WRMP)** | Dogfennau statudol yw WRMPs y mae'n ofynnol i gwmnïau dŵr eu cynhyrchu bob pum mlynedd o leiaf. Mae WRMPs yn nodi sut y bydd cwmni yn sicrhau bod cyflenwad pendant o ddŵr yn cael ei gynnal ar gyfer busnesau a chartrefi, tra'n diogelu'r amgylchedd naturiol. WRMPs Dŵr Cymru a Seven Trent Water sydd fwyaf tebygol o ryngweithio â'r CDLIN. |
| **Parciau Cenedlaethol** | Mae gan naw awdurdod unedig gyfrifoldeb am ardaloedd o 520 milltir sgwâr Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (PCBB). O'r awdurdodau hyn, mae Cyngor Powys yn gyfrifol am 66% o'r ardal. Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (APCBB) yw'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn yr ardal hon. Gallai'r cynlluniau canlynol ryngweithio â CDLIN Powys:<br>▪ Cynllun Rheoli 2023 – 2028 PCBB<br>▪ Cynllun Datblygu Lleol 2007 – 2022 PCBB<br><br>Ar 7 Mehefin 2024, tynnodd APCBB Gynllun Datblygu Lleol Newydd Cyntaf PCBB (2018- 2033) yn ôl. Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn bwriadu cytuno ar Gytundeb Cyflawni gyda Llywodraeth Cymru maes o law.<br><br>Mae Powys yn ffinio Parc Cenedlaethol Eryri i'r gogledd-orllewin. Mae'r cynlluniau allweddol yn cynnwys:<br>▪ Cynllun Datblygu Lleol 2016 – 2031 Eryri |

| | |
|---|---|
| | ▪ Cynllun Partneriaeth 2020 Parc Cenedlaethol Eryri |
| **Tirweddau Cenedlaethol** | Mae Powys yn ffinio Tirwedd Genedlaethol Bryniau Swydd Amwythig i'r dwyrain ac mae'r cynlluniau allweddol yn cynnwys:<br>▪ Cynllun Rheoli 2019 – 24 AHNE Bryniau Swydd Amwythig |
| **Cynlluniau Cyngor Sir Powys** | Ceir nifer o Gynlluniau Cyngor Sir Powys a allai ryngweithio â'r CDLIN, gan gynnwys:<br>▪ mae Cynllun Gweithredu Adfer Natur 2022-2032 Powys yn cyd-fynd â'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur<br>▪ Cynllun Gweithredu Strategaeth Adfywio i Bowys 2011 – 2031<br>▪ Cynllun Cydraddoldeb Corfforedig a Chydraddoldeb Powys<br>▪ Strategaeth Adfywio 2011 Powys<br>▪ Strategaeth Hybu'r Gymraeg Cyngor Sir Powys 2017-2022 |

6.3.2. Mae Tabl 6-3 yn amlinellu effeithiau arwyddocaol tebygol y cynlluniau a'r prosiectau a nodwyd, ar y cyd â CDLIN Powys, a nodwyd yn erbyn pob un o bynciau'r ACI.

**Tabl 6-3 – Arfarniad o effeithiau cronnol rhyng-gynllun**

| Pwnc yr ACI | Arwyddocâd gweddilliol | Disgrifiad o effeithiau cronnol posibl |
|---|---|---|
| **Poblogaeth a Chymunedau** | **++/?** | Mae'r CDLIN yn debygol o ryngweithio â chynlluniau a rhaglenni eraill i gael effaith gronnol hirdymor arwyddocaol drwy'r ddarpariaeth o gartrefi newydd (gan gynnwys cartrefi fforddiadwy), cyfleoedd gwaith a seilwaith cymunedol cysylltiedig i ddiwallu anghenion a nodwyd yn ogystal â chysylltedd gwell ledled Powys a thu hwnt. |
| **Economi a Chyflogaeth** | **++/?** | Mae'r CDLIN yn debygol o ryngweithio â chynlluniau a rhaglenni eraill i gael effaith gronnol hirdymor arwyddocaol drwy'r ddarpariaeth o gyfleoedd gwaith newydd (yn rhanbarthol ac yn lleol) a chysylltedd gwell ledled Powys a thu hwnt. |
| **Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant** | **+/?** | Mae'r CDLIN yn debygol o ryngweithio â chynlluniau eraill i leihau anghydraddoldebau trwy well mynediad at gartrefi newydd (o wahanol ddeiliadaethau, mathau a meintiau gan gynnwys tai fforddiadwy), cyfleoedd gwaith a chyfleusterau |

| Pwnc yr ACI | Arwyddocâd gweddilliol | Disgrifiad o effeithiau cronnol posibl |
|---|---|---|
| | | cymunedol i bob grŵp. Potensial ar gyfer mân effaith gronnol gadarnhaol hirdymor. |
| **Y Gymraeg** | **+/?** | Mae'r CDLIN yn cyflwyno blaenoriaethau eglur y dylai'r Gymraeg fod yn ystyriaeth yn rhan o'r broses o lunio CDLIN ar gyfer datblygiad. Bydd cynlluniau a strategaethau eraill yng Nghymru hefyd yn cynnwys amcanion tebyg a roddir yn uniongyrchol o bolisïau cenedlaethol. Gyda'i gilydd, maent yn debygol o gael mân effaith gronnol gadarnhaol hirdymor. |
| **Iechyd a Llesiant** | **+/?** | Os bydd datblygiadau lluosog yn cael eu hadeiladu yn agos at ei gilydd, ceir y potensial ar gyfer effeithiau cronnol negyddol dros dro yn ymwneud â llygredd sŵn a golau, mwy o dagfeydd traffig, a llygredd aer, a allai effeithio ar y gymuned leol yn ystod cyfnodau adeiladu'r prosiect. Fodd bynnag, mae camau lliniaru addas ar gael i fynd i'r afael â hyn, gan gynnwys rhannu datblygiadau yn gamau i sicrhau nad oes unrhyw effeithiau negyddol arwyddocaol yn codi.<br><br>Mae'r CDLIN yn debygol o ryngweithio â chynlluniau eraill i ddarparu cartrefi newydd, cyfleoedd gwaith a chyfleusterau iechyd. Mae cysylltiadau trwy Bowys gyfan a thu hwnt yn debygol o gael eu gwella, ac mae hyn yn cynnwys cyfleoedd ar gyfer teithio llesol. Ar y cyfan, ystyrir bod potensial ar gyfer mân effeithiau cronnol cadarnhaol hirdymor ar gyfer iechyd a llesiant. |
| **Defnydd Tir, Priddoedd a Daeareg** | **-/?** | Er y bydd y CDLIN a chynlluniau eraill yn annog y defnydd o dir a ddatblygwyd yn flaenorol pan fo'n bosibl, mae dal i fod yn debygol y bydd tir maes glas yn cael ei golli. Maent hefyd yn debygol o annog y defnydd o dir amaethyddol ansawdd is ond nid yw hyn yn cyfyngu ei ddefnydd a cheir y potensial o hyd i golli tir amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas. O ganlyniad, ystyrir bod potensial ar gyfer mân effaith gronnol negyddol. |
| **Dŵr** | **?** | Mae gan ddatblygiadau a gynigir drwy'r CDLIN y potensial i ryngweithio â datblygiadau a gynigir trwy gynlluniau a strategaethau eraill, gan arwain at effeithiau cronnol negyddol a chadarnhaol ar adnoddau ac ansawdd dŵr. O ran adnoddau dŵr, mae'r CDLIN a chynlluniau eraill yn ceisio sicrhau bod datblygiadau newydd yn cael eu cefnogi gan |

| Pwnc yr ACI | Arwyddocâd gweddilliol | Disgrifiad o effeithiau cronnol posibl |
|---|---|---|
| | | seilwaith presennol neu newydd digonol, gan gynnwys gweithfeydd trin dŵr gwastraff a seilwaith cyflenwad dŵr. Yn gyffredinol, maent hefyd yn ceisio ymgorffori mesurau effeithlonrwydd dŵr mewn datblygiadau newydd a sicrhau bod cyn lleied â phosibl o effeithiau niweidiol ar ansawdd dŵr. Rheolir adnoddau dŵr a chapasiti trin dŵr gwastraff ar lefel dalgylch yn gyffredinol, gyda Cyfoeth Naturiol Cymru, Dŵr Cymru, Severn Trent Water a darparwyr gwasanaethau dŵr gwastraff yn cydweithio'n agos i fonitro'r sefyllfa a chynllunio ymlaen i fodloni'r galw a ragwelir. |
| **Aer** | **?** | Os bydd datblygiadau lluosog yn cael eu hadeiladu yn agos at ei gilydd, ceir y potensial ar gyfer effeithiau cronnol negyddol dros dro o ganlyniad i fwy o lwch a deunydd gronynnol yn ogystal â thraffig, a allai leihau ansawdd aer. Fodd bynnag, darperir camau lliniaru priodol trwy bolisïau'r cynllun ac maent ar gael ar lefel prosiect. Byddai rhannu datblygiadau yn gamau priodol yn helpu i osgoi'r potensial ar gyfer effeithiau negyddol cronnol yn ystod y cyfnod adeiladu. Ochr yn ochr â pholisi cenedlaethol a lleol ar ansawdd aer, ac yn unol â pholisïau a amlinellir yn y CDLIN i wella ansawdd aer a theithio cynaliadwy, ceir y cyfle ar gyfer effeithiau cronnol cadarnhaol yn y tymor hwy. Gallai gwelliannau i'r rhwydwaith trafnidiaeth, hyrwyddo teithio cynaliadwy, a lleihau'r defnydd o geir preifat arwain at effeithiau cronnol cadarnhaol ar ansawdd aer trwy leihau allyriadau ceir. |
| **Gwastraff a Defnydd o Adnoddau** | **+/?** | Yn y byrdymor, bydd y ddarpariaeth o ddatblygiadau a gynigir drwy'r CDLIN a chynlluniau eraill yn gofyn am yr angen am adnoddau wrth adeiladu. Yn gyffredinol, mae'r CDLIN a chynlluniau eraill yn ceisio annog y defnydd effeithlon a phriodol o adnoddau, gan gynnwys defnyddio adnoddau eilaidd neu wedi'u hailgylchu. Fodd bynnag, ochr yn ochr â pholisi cenedlaethol ar wastraff a defnydd o adnoddau a thargedau ailgylchu statudol, ceir y potensial ar gyfer effeithiau cronnol cadarnhaol a fyddai'n dod yn amlwg yn yr hirdymor. Bydd polisïau sydd â'r bwriad o gydymffurfio ag egwyddorion hierarchaeth wastraff, o gefnogi'r ddarpariaeth o gyfleusterau rheoli gwastraff addas, ac o gefnogi'r economi |

| Pwnc yr ACI | Arwyddocâd gweddilliol | Disgrifiad o effeithiau cronnol posibl |
|---|---|---|
| | | gylchol, yn cael effeithiau cronnol cadarnhaol hirdymor. |
| **Newid yn yr Hinsawdd (Addasu)** | **+/?** | Mae'r CDLIN a chynlluniau eraill yn ceisio sicrhau bod datblygiadau newydd yn fwy gwydn a hyblyg yn erbyn effeithiau tebygol y newid yn yr hinsawdd, a fydd yn cael effeithiau cronnol cadarnhaol hirdymor. Bydd y CDLIN a chynlluniau eraill yn ceisio cyfeirio datblygiadau oddi wrth ardaloedd perygl llifogydd uchel a/ neu mewn ardaloedd a fyddai'n cynyddu'r perygl o lifogydd mewn mannau eraill. Mae'r cynlluniau yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiadau newydd ymateb i hinsawdd sy'n newid a bod yn wydn yn ei erbyn. Ar y cyfan, ceir y potensial ar gyfer mân effaith gronnol gadarnhaol. |
| **Newid yn yr Hinsawdd (Lliniaru)** | **+/?** | Mae gan y CDLIN y potensial i ryngweithio â'r cynlluniau i gael effeithiau cronnol negyddol a chadarnhaol ar y newid yn yr hinsawdd (lliniaru). Gallai'r ddarpariaeth o ddatblygiadau a chynnydd posibl i ddefnydd o gerbydau preifat gynyddu allyriadau nwyon tŷ gwydr. Fodd bynnag, mae'r CDLIN a chynlluniau eraill yn ceisio sicrhau bod hyn cyn lleied â phosibl a'i liniaru trwy ddefnydd a dyluniad cynaliadwy o adnoddau yn ogystal â thrwy gyfeirio datblygiadau tuag at leoliadau cynaliadwy â mynediad at ddulliau teithio cynaliadwy.<br>Ar y cyfan, ystyrir bod potensial ar gyfer mân effaith gronnol gadarnhaol hirdymor. Mae'r cynlluniau hefyd yn ceisio sicrhau bod allyriadau tŷ gwydr mor isel â phosibl a gwella hygyrchedd dulliau teithio cynaliadwy. |
| **Trafnidiaeth a Symudiad** | **+/?** | Mae gan y CDLIN y potensial i ryngweithio â'r cynlluniau i gael effeithiau cronnol negyddol a chadarnhaol ar drafnidiaeth a symudiad. Gallai effeithiau cronnol negyddol godi o ganlyniad i symudiadau cerbydau cynyddol, a allai leihau capasiti'r rhwydwaith priffyrdd, yn enwedig os bydd nifer o ddatblygiadau yn cael eu darparu yn agos at ei gilydd. Fodd bynnag, mae'r cynlluniau yn cynnwys polisïau sy'n ceisio sicrhau bod effeithiau datblygiadau newydd ar y rhwydwaith trafnidiaeth cyn lleied â phosibl ac annog y defnydd o ddulliau teithio cynaliadwy.<br>Ar y cyfan, ystyrir y bydd y CDLIN yn rhyngweithio â chynlluniau eraill i gael mân effaith gronnol gadarnhaol hirdymor ar drafnidiaeth a symudiad. |

| Pwnc yr ACI | Arwyddocâd gweddilliol | Disgrifiad o effeithiau cronnol posibl |
|---|---|---|
| | | Gwell mynediad at gartrefi newydd, cyfleoedd gwaith a chyfleusterau cymunedol ochr yn ochr ag annog a gwella mynediad at ddulliau teithio cynaliadwy. |
| **Amgylchedd Hanesyddol** | ? | Mae gan ddatblygiadau a gynigir drwy'r CDLIN a chynlluniau eraill y potensial i ryngweithio a chael effeithiau cronnol ar yr amgylchedd hanesyddol. Yn enwedig os bydd datblygiadau yn cael eu hadeiladu ar yr un pryd o fewn lleoliad yr un ased treftadaeth (dynodedig neu annynodedig). Mae'r CDLIN a chynlluniau eraill, gan gynnwys polisi cenedlaethol, yn cynnwys polisïau sy'n ceisio gwarchod a gwella'r asedau treftadaeth. O ganlyniad, ystyrir bod effeithiau cronnol negyddol arwyddocaol yn annhebygol.<br>Yn y pen draw, bydd natur ac arwyddocâd effeithiau yn dibynnu ar leoliad, graddfa a dyluniad datblygu a gweithredu camau lliniaru ar lefel y prosiect. |
| **Bioamrywiaeth, Seilwaith Gwyrdd a Geoamrywiaeth** | ? | Mae gan ddatblygiadau a gynigir drwy'r CDLIN a chynlluniau eraill y potensial i ryngweithio a chael effeithiau cronnol ar fioamrywiaeth, seilwaith gwyrdd a geoamrywiaeth. Yn enwedig os byddant yn cael eu hadeiladu ar yr un pryd a chyda llwybrau ar gyfer effeithiau ar deithio i'r un derbynnydd. Mae'r CDLIN a chynlluniau eraill, gan gynnwys polisi cenedlaethol, yn cynnwys polisïau sy'n ceisio gwarchod a gwella bioamrywiaeth yn ogystal â seilwaith gwyrdd a bioamrywiaeth. O ganlyniad, ystyrir bod effeithiau cronnol negyddol arwyddocaol yn annhebygol. Mae'n debygol y bydd cyfleoedd i sicrhau budd net i fioamrywiaeth a gwelliannau i seilwaith gwyrdd; fodd bynnag, mae hyn yn ansicr ar hyn o bryd.<br>Yn y pen draw, bydd natur ac arwyddocâd effeithiau yn ddibynnol ar union leoliad, maint a dyluniad datblygiadau a gweithrediad camau lliniaru ar lefel y prosiect. |
| **Tirwedd a Threflun** | ? | Mae gan ddatblygiadau a gynigir drwy'r CDLIN a chynlluniau eraill y potensial i ryngweithio a chael effeithiau cronnol ar dirwedd a threflun. Mae'r derbynyddion sensitif yn cynnwys Parciau Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac Eryri yn ogystal â Thirwedd Genedlaethol Bryniau Swydd Amwythig. Mae'r CDLIN a chynlluniau eraill, gan |

| Pwnc yr ACI | Arwyddocâd gweddilliol | Disgrifiad o effeithiau cronnol posibl |
|---|---|---|
| | | gynnwys polisi cenedlaethol, yn cynnwys polisïau sy'n ceisio gwarchod a gwella'r dirwedd a'r treflun. O ganlyniad, ystyrir bod effeithiau cronnol negyddol arwyddocaol yn annhebygol.<br>Yn y pen draw, bydd natur ac arwyddocâd effeithiau yn ddibynnol ar union leoliad, maint a dyluniad datblygiadau a gweithrediad camau lliniaru ar lefel y prosiect. |

# 7

# Y Camau Nesaf

# 7 Y Camau Nesaf

## 7.1 Trosolwg

7.1.1. Mae Adroddiad Cychwynnol hwn yr ACI yn cyflwyno canfyddiadau'r ACI o'r Strategaeth a Ffefrir (gan gynnwys Gweledigaeth, Amcanion a Pholisïau Strategol) ac opsiynau amgen rhesymol (Opsiynau Twf a Gofodol). Mae'r canfyddiadau wedi hysbysu datblygiad y Ddogfen Strategaeth a Ffefrir.

## 7.2 Y Camau Nesaf

7.2.1. Bydd Adroddiad Cychwynnol hwn yr ACI yn ategu'r Ddogfen Strategaeth a Ffefrir ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus o 19 Awst tan 7 Hydref 2024. Bydd unrhyw sylwadau a dderbynnir yn cael eu cymryd i ystyriaeth yn rhan o'r broses llunio cynlluniau ac ACI ailadroddol.

7.2.2. Bydd y sylwadau a dderbynnir ynghyd â gwaith ACI pellach, gan gynnwys arfarnu safleoedd ymgeisiol, yn hysbysu datblygiad y Cynllun Adneuol. Bydd Adroddiad ACI wedi'i ddiweddaru yn ategu'r Cynllun Adneuol ar adeg yr ymgynghoriad cyhoeddus.

Kings Orchard
1 Queen Street
Bryste
BS2 0HQ

**wsp.com**

Nid yw WSP UK Limited yn gwneud unrhyw warantiadau na sicrwydd, gwirioneddol neu awgrymedig, o ran yr adroddiad hwn, na'r effaith fasnachol, dechnegol, economaidd, neu ariannol yn y pen draw ar y prosiect y mae'n ymwneud ag ef, ac nid yw'n cymryd unrhyw gyfrifoldeb nac atebolrwydd yn ymwneud â'i ddefnydd ac eithrio fel y nodir yn y contract y'i cyflenwyd yn unol ag ef.